# Canllaw Cyrsiau i Ymadawyr Ysgol

2024-25

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea



Sicrhau Eich Dyfodol

# Nosweithiau agored

Dysgwch ragor am y cyrsiau sydd o ddiddordeb i chi, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr.

## Campws Gorseinon 5.30-7.30pm

Nos Iau 16 **Tachwedd** 2023

Nos Fawrth 16 **Ionawr** 2024

Nos Lun 4 **Mawrth** 2024

## Campws Tycoch 5.30-7.30pm

Nos Iau 23 **Tachwedd** 2023

Nos Lun 22 **Ionawr** 2024

Nos Lun 11 **Mawrth** 2024

## Campws Llwyn y Bryn 5.30-7.30pm

Nos Fawrth 21 **Tachwedd** 2023

Nos Fawrth 23 **Ionawr** 2024

Nos Fawrth 12 **Mawrth** 2024

## Llys Jiwbilî 5.30-7.30pm

Nos Fercher 15 **Tachwedd** 2023

Nos Fercher 6 **Mawrth** 2024

**gcs.ac.uk/cy/open-event-registration**

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C010353

*Mae'r holl fanylion yn gywir adeg cyhoeddi - Medi 2023.*

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ffoniwch 01792 284000.

# Cynnwys


**01** Croeso

**02-05** Storïau llwyddiant

**06** Defnyddio'ch Cymraeg

**07-08** Sgiliau Byw'n Annibynnol
Cyngor a chymorth
Cymorth ariannol
Cludiant
Bagloriaeth Cymru

**09-10** Bywyd myfyrwyr

**11-12** Chwaraeon

**13-14** Dechrau eich taith
- Canllaw i ofynion mynediad
- Nosweithiau agored

**15-16** Cyrsiau Safon Uwch
- Canlyniadau
- Darpariaeth linol
- Cymorth tiwtorial
- Rhaglen Sylfaen Safon Uwch
- Anrhydedd CGA
- Rhwydwaith Seren
- HE+
- Rhaglen Paratoi ar gyfer Rhydgrawnt
- Ceisiadau i astudio meddygaeth

**17** Galwedigaethol

**18** Prentisiaethau


## Meysydd cwrs


**19** Celf, Dylunio a'r Cyfryngau

**23** Amgylchedd Adeiledig

**25** Busnes, Cyfrifeg a'r Gyfraith

**28** Arlwyo a Lletygarwch

**30** Cyfrifiadura a Thechnoleg

**32** Peirianneg

**36** Gwallt, Harddwch a Holisteg

**38** Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

**41** Sgiliau Garddwriaeth

**42** Y Dyniaethau ac Ieithoedd

**45** Mathemateg, Gwyddoniaeth a Gwyddor Gymdeithasol

**48** Cerbydau Modur

**49** Y Celfyddydau Perfformio, Cynhyrchu a Cherddoriaeth

**52** Gwasanaethau Cyhoeddus ac Amddiffynnol

**53** Chwaraeon

**55** Teithio a Thwristiaeth


**Methu gweld yr hyn rydych yn chwilio amdano?** Rydym hefyd yn cynnig:

### Mynediad i addysg uwch

Mae'r cyrsiau hyn yn addas i'r rhai sy'n 18 oed neu hŷn a byddant yn eich paratoi ar gyfer mynediad i addysg uwch.

**gcs.ac.uk/cy/access**

### Addysg uwch

Rydym yn cynnig cyrsiau Gradd, Gradd Sylfaen, Diploma Cenedlaethol Uwch (HND), Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) a chymwysterau proffesiynol mewn nifer o feysydd pwnc.

**gcs.ac.uk/cy/higher-education**

### Cyrsiau rhan-amser

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol.

**gcs.ac.uk/cy/part-time**

### Hyfforddiant busnes

Rydym yn cynnig atebion i gyflogwyr sydd am gael y gorau allan o'u staff.

**gcs.ac.uk/cy/employers**

# Croeso

Os ydym wedi dysgu unrhyw beth o heriau'r blynyddoedd diwethaf, pwysigrwydd addysg yw hwnnw. Dewis beth rydych am ei astudio ar ôl gadael yr ysgol yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn ei wneud, a gwyddom fod darpar fyfyrwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid yn gyffredinol yn seilio'r penderfyniadau hyn ar dri ffactor allweddol, ac mae pob un o'r rhain yn gryfderau cydnabyddedig yn y Coleg hwn:

1. **Dewis** ac amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael
2. **Ansawdd** yr addysgu a chanlyniadau ein myfyrwyr
3. Y **cyfleoedd** ar gyfer dilyniant ar ôl cwblhau'r cwrs.

Gall astudio mewn coleg mawr gynnig llawer o fanteision i bob un o'n myfyrwyr o ran dewis. Yng Ngholeg Gŵyr Abertawe mae'r rhain yn cynnwys dros **40 o bynciau Safon Uwch** a **40 o bynciau galwedigaethol** ar amryw o lefelau.

Ond nid yw'r maint mwy hwn yn golygu ein bod yn cyfaddawdu ar ansawdd ein cyrsiau nac ar brofiad myfyrwyr. Mae gan y Coleg un o'r enwau cryfaf yng Nghymru am ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel – nid yn unig ar gyrsiau Safon Uwch, ond hefyd ar draws ein rhaglenni galwedigaethol, ac mae llwyddiannau ein myfyrwyr yn arwain y sector.

Mae'r maint mwy hwn hefyd yn rhoi modd i ni ddarparu **gwasanaeth cymorth helaeth i fyfyrwyr**. Mae gennym dros 50 o staff amser llawn mewn rolau nad ydynt yn rhai addysgu, sy'n wynebu myfyrwyr e.e. hyfforddwyr bugeiliol, swyddogion cymorth myfyrwyr, cynghorwyr lles a chydlynwyr lles. Yn ogystal, mae gennym ystod eang o weithgareddau a chymorth ar-lein ar gael trwy CGA a Chi a CGA Egnïol.

Dros y blynyddoedd, mae'r Coleg wedi meithrin cysylltiadau â phrifysgolion blaenllaw yn y DU a chyflogwyr lleol adnabyddus sy'n golygu bod mwy o gyfleoedd ar gael i'n myfyrwyr symud ymlaen, boed hynny i addysg uwch, prentisiaeth neu swydd.

**Yn 2023, enillodd 82% o'n myfyrwyr y graddau oedd eu hangen arnyn nhw i fynd i'w prifysgol dewis cyntaf** (cyfartaledd cenedlaethol y DU oedd 79%). Mae hyn yn cynnwys 152 o fyfyrwyr sydd wedi sicrhau lleoedd yn un o brifysgolion Russell Group.

Mae ein myfyrwyr hefyd wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn digwyddiadau Cystadleuaeth Sgiliau Cymru gyda 30 o ddysgwyr o feysydd sy'n cynnwys colur creadigol, gofal plant, codio a dylunio ffasiwn yn ennill medalau.




Yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe wedi cynrychioli'r DU yn nigwyddiadau Ewropeaidd a WorldSkills – ac mae hyn yn debygol o barhau.

Ein nod yw helpu ein holl fyfyrwyr i gyflawni eu potensial unigol. A dyma le mae **Gwarant Coleg Gŵyr Abertawe** yn chwarae rhan, gan sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael cymorth unigol ar un o **bum llwybr dilyniant** ar ôl iddynt orffen eu cwrs:

1. **Cynnig i brifysgol yn y DU**
2. **Cwrs addas arall yn y Coleg**
3. **Cyflogaeth**
4. **Prentisiaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion Abertawe a rhanbarth de-orllewin Cymru**
5. **Cymorth cyflogadwyedd personol i'w helpu i gael swydd.**

Rydym bob amser yma i'ch helpu i wneud y penderfyniadau hyn ac felly mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Mark Jones**
Pennaeth a Phrif
Weithredwr





# Mae myfyrwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yn dathlu set gadarn o ganlyniadau Safon Uwch a galwedigaethol Lefel 3 eto yn 2023.










Y gyfradd basio gyffredinol eleni ar gyfer Safon Uwch yw 98%, gyda 1,391 o gofrestriadau arholiadau ar wahân. Roedd 35% o'r graddau hyn yn A*-A, 60% yn A*-B ac 82% yn A*-C.

Cyfradd pasio gyffredinol Safon UG yw 95%, gyda 74% o'r graddau hynny yn raddau A-C a 53% yn raddau A-B. Roedd 2,119 o gofrestriadau arholiadau ar wahân ar gyfer Safon UG.

Mae canlyniadau galwedigaethol y Coleg hefyd yn gryf eto eleni gyda chyfradd pasio 97% ar draws cyrsiau Diploma Estynedig Lefel 3, gyda 38% o'r rheini yn cyflawni'r graddau uchaf.

"Rydyn ni'n hapus dros ben gyda'r canlyniadau hyn, mae'n adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad ein myfyrwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf," meddai'r Pennaeth Mark Jones. "Mae hefyd, wrth gwrs, yn dyst i ymroddiad ein staff sy'n cefnogi ein dysgwyr yn ddiflino yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth."

Mae rhai o lwyddiannau'r myfyrwyr yn cynnwys:
- Daniele Lucini – yn mynd i Gaergrawnt i astudio Gwyddorau Naturiol
- Chloe Hazel – yn mynd i Rydychen i astudio'r Clasuron
- Rachel Smith – yn mynd i Gaergrawnt i astudio Eingl-Sacsoneg, Norseg a Chelteg
- Isabela Angeles – yn mynd i Warwig i astudio Mathemateg
- James Duffy – yn mynd i Durham i astudio Gwleidyddiaeth
- Megan Goodhall – yn mynd i Durham i astudio Daearyddiaeth
- Harry Healings – yn mynd i Durham i astudio Ffiseg
- Ella Kenny – yn mynd i Durham i astudio Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg
- Vritika Shrivastava – yn mynd i Fryste i astudio'r Gyfraith
- Calvin Vaila – yn mynd i Fryste i astudio Economeg
- Eve Winter – yn mynd i Gaeredin i astudio Llenyddiaeth Saesneg

# Myfyrwyr Coleg yn ennill llu o fedalau

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn dathlu ar ôl i fyfyrwyr ennill cyfanswm o 30 medal yn dilyn y rownd ddiweddaraf o ddigwyddiadau Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.

Gwahoddwyd y dysgwyr i 'barti gwylio' arbennig ar Gampws Tycoch ar 9 Mawrth i ddathlu wrth i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

**Aur**
- Orlagh Cronin – Colur Creadigol
- Tarran Spooner – Electroneg Ddiwydiannol
- Lauren Maddick – Gofal Plant
- Kaitlin Curtis - Marchnata Gweledol
- Cameron Bryant – Sgiliau Cynhwysol: Gwasanaethau Bwyty
- Noah Brooks – Technegydd Cymorth TG

**Arian**
- Jarrad Scott – Codio
- Courtney Wallace – Electroneg Ddiwydiannol
- Liam Allen – Gwaith Coed
- Olivia Colhoun - Menter
- William Evans - Menter
- Heledd Hunt - Menter
- Jessi Jones - Menter
- Haydn Jones – Menter
- Connor Leahy – Roboteg Ddiwydiannol
- Joshua Lenthall - Roboteg Ddiwydiannol
- Vitalii Pasternak - Seiberddiogelwch
- Nestor Penate - Seiberddiogelwch
- Jessica Brown – Sgiliau Cynhwysol: Gwasanaethau Bwyty
- Pasha Richards-Parssa Nykoo – Sgiliau Cynhwysol: Sgiliau Bywyd
- Ciaran Goggin – Technegydd Cymorth TG
- Georgia Cox – Technegydd Labordy
- Erin McCormick – Ymarferydd Therapi Harddwch (Corff)

**Efydd**
- Rhys Gunning – Dylunio a Thechnoleg Ffasiwn
- James Wheland – Electroneg Ddiwydiannol
- Miles Thornton – Gofal Plant
- Thea Wakeford – Marchnata Gweledol
- Kayleigh Brock - Sgiliau Cynhwysol: Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Ashley Duggan – Sgiliau Cynhwysol: Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Courtney Taylor – Sgiliau Cynhwysol: Sgiliau Bywyd


Nod Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yw codi proffil sgiliau yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfle i fyfyrwyr, hyfforddeion a phrentisiaid Cymru herio, meincnodi a chodi eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau ar draws amrywiaeth o sectorau.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rhedeg gan rwydwaith ymroddedig o golegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau dan arweiniad cyflogwyr, mae'n cynnwys cyfres o gystadlaethau sgiliau lleol, sy'n cyd-fynd â









WorldSkills ac anghenion economi Cymru.

"Rydyn ni wrth ein bodd gyda pherfformiad ein holl fyfyrwyr a gymerodd ran yn fframwaith Cystadleuaeth Sgiliau Cymru eleni," meddai Deon Cyfadran a'r Llysgennad Sgiliau, Cath Williams. "Mae jyglo eu hastudiaethau o ddydd i ddydd ochr yn ochr ag ymarferion ychwanegol a neilltuo amser i hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth yn gyflawniad rhyfeddol, a dylai pawb fod yn falch o hynny.

"Rydyn ni wrth ein bodd ein bod ni wedi ennill cynifer o fedalau y tro hwn – chwe Aur, 17 Arian a saith Efydd – ac mae hyn wir yn dyst i'r profiadau dysgu ac addysgu ardderchog y mae'r Coleg, sy'n Ganolfan Ragoriaeth Sgiliau Brydeinig ddynodedig, yn eu darparu."

# Gwobrau Myfyrwyr 2023






**Mae myfyrwyr a staff o Goleg Gŵyr Abertawe wedi dathlu blwyddyn arall eto o ragoriaeth academaidd a galwedigaethol.**

Dychwelodd yr hen ffefryn Kev Johns MBE i'r llwyfan yn Stadiwm Swansea.com i gyflwyno'r noson, lle casglwyd gwobrau gan fyfyrwyr o amrywiaeth o gyrsiau amser llawn a rhan-amser, prentisiaethau, llwybrau addysg uwch, cyrsiau mynediad a rhaglenni cymorth cyflogadwyedd.

Siaradwr gwadd y noson oedd yr enillydd BAFTA, y darlledwr, yr anturiaethwr dewr a'r athletwr dygnwch eithafol o'r radd flaenaf, Lowri Morgan. Roedd ei neges o ddyfalbarhau a meddwl yn gadarnhaol wedi ysbrydoli pawb a fu'n bresennol.

Roedd y digwyddiad gwobrwyo yn arddangosfa ymarferol o dalentau myfyrwyr hefyd.

Darparwyd adloniant gan fyfyrwyr Effeithiau Arbennig Theatrig, Gwallt a Cholur y Cyfryngau, a gyflwynodd sioe Syrcas Arswyd arbennig i westeion, a chafwyd perfformiad gan Dance4Ukraine, sy'n cynnwys llawer o fyfyrwyr o Gampws Llwyn y Bryn. Darparwyd y set, y goleuadau a'r sain gan fyfyrwyr Cynhyrchu Theatr a Digwyddiadau Byw Lefel 3.

"Rydyn ni wedi clywed storïau am fyfyrwyr yn ennill y graddau uchaf posibl, myfyrwyr yn cael cydnabyddiaeth genedlaethol yn y ddisgyblaeth o'u dewis, myfyrwyr yn cydbwyso ymrwymiadau sylweddol o ran teulu a gwaith gyda'u hastudiaethau a myfyrwyr eraill sydd wedi teithio pellter anhygoel ers dechrau yn y Coleg," meddai'r Pennaeth Mark Jones. "Ac er bod y rhain i gyd yn storïau gwahanol, maen nhw'n rhannu thema gyson sef ymrwymiad, penderfyniad a mynd yr ail filltir, sydd yn wirioneddol ysbrydoledig."






## Dysgwyr yn disgleirio mewn digwyddiad Dyfodol Creadigol

Cynhaliodd Coleg Gŵyr Abertawe ddigwyddiad Dyfodol Creadigol cyffrous ar ddydd Iau, 23 Mawrth, gan ddod â ffasiwn, gwallt a harddwch, colur a cherddoriaeth ynghyd mewn arddangosfa. Cynhaliwyd y digwyddiad ar Gampws Tycoch ac roedd myfyrwyr o Ysgol yr Esgob Gore, dysgwyr o'r Coleg, rhieni a gwesteion yn bresennol.

Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd rhwng dysgwyr o wahannol rannau o'r Coleg.

Myfyrwyr Celfyddydau Cynhyrchu oedd yn gyfrifol am drefnu'r llwyfan a rheoli'r sain a'r golau, ac fe wnaeth myfyrwyr Gwallt a Cholur baratoi'r modelau ar gyfer y brigdrawst. Diddanodd myfyrwyr Perfformio Cerdd y gynulleidfa trwy berfformio cyfansoddiadau gwreiddiol ac fe wnaeth myfyrwyr Celf a Dylunio arddangos eu dillad ffasiwn gynaliadwy a grëwyd o hen ddenim, yn ogystal ag arddangos eu prosiectau buddugol yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru.





"Roedd y digwyddiad cyffrous hwn yn gyfle i ddysgwyr creadigol ar draws y Coleg gydweithio fel y bydden nhw'n ei wneud ym myd diwydiant, a dangos eu sgiliau, gan roi profiad 'byd go iawn' iddyn nhw yn y sector o'u dewis," meddai Elinor Franklin, Arweinydd Cwricwlwm Celf a Dylunio a drefnodd y digwyddiad.

"Mae'r diwydiannau creadigol yn ffynnu yng Nghymru, mae'n gyfnod gwefreiddiol i ddechrau gyrfa greadigol! Mae dysgwyr yn y Coleg yn cael llawer o gyfleoedd i weithio gydag artistiaid, dylunwyr ac ymarferwyr creadigol sy'n eu cynorthwyo gyda'u camau nesaf."

# **Gwarant** Coleg Gŵyr Abertawe

Mae ein Gwarant Coleg Gŵyr Abertawe unigryw yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael cymorth i symud ymlaen i un o bum llwybr dilyniant ar ôl iddynt orffen eu cwrs: **prifysgol, cyflogaeth, prentisiaeth, cwrs addas arall, neu gymorth cyflogadwyedd.**

## Menter / Cyflogadwyedd

Mae Heledd yn brysur yn dilyn ei hastudiaethau Lefel 3 ochr yn ochr â rhedeg ei chwmni ei hun – Hels Bakes Cakes – a ddechreuodd hi yn 2022, gan arlwyo ar gyfer digwyddiadau fel partïon pen-blwydd.

A hithau'n siarad Cymraeg yn rhugl ac yn un o Lysgenhadon Cymraeg y Coleg, mae Heledd hefyd wedi arlwyo ar gyfer digwyddiadau'r Wythnos Gymraeg ar draws y campysau. Mae hi hefyd wedi cael cymorth ac anogaeth oddi wrth dîm Menter y Coleg.

"Mae astudio busnes yn y Coleg wedi bod yn fuddiol dros ben," dywedodd hi. "Mae wedi rhoi cyfle i mi ennill llawer mwy o wybodaeth am y camau ymarferol o redeg menter lwyddiannus."



Heledd Hunt



Daniele Lucini

## Mynd i'r brifysgol

Mae cael cynnig gan brifysgol flaenllaw yn gyflawniad gwych i unrhyw fyfyriwr. Mae cael pedwar yn arbennig iawn – a dyna beth sydd wedi digwydd i Daniele a astudiodd fathemateg, mathemateg bellach, ffiseg a chemeg ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru.

Mae wedi cael cynigion gan Brifysgol Caergrawnt, Prifysgol Caerfaddon a Choleg Prifysgol Llundain i astudio gradd yn y gwyddorau naturiol o fis Medi. Mae ganddo gynnig i astudio cemeg ym Mhrifysgol Bryste hefyd.

"Mae'r Coleg wedi rhoi llawer o gymorth i mi. Dwi'n cofio'r diwrnod pan ddes i mewn ar gyfer fy sesiwn sefydlu a chael trafodaeth hir gyda'r staff. Ces i gyngor ynghylch pa gyrsiau Safon Uwch fyddai orau i'w hastudio er mwyn dilyn y cyrsiau gradd oedd o'r diddordeb mwyaf i mi" meddai.

Cafodd Daniele gymorth hefyd drwy weithgareddau cyfoethogi academaidd amrywiol diolch i raglenni Anrhydedd CGA a Rhydgrawnt a Rhwydwaith Seren.

## Dilyniant

Yn ôl yn 2017, roedd Emma Hill mewn perygl o fod yn NEET. Ymunodd hi â'n rhaglen y Bont tra roedd hi'n meddwl am lwybr gyrfa i'w ddilyn. Ar ôl cwblhau cwrs y Bont gyda phroffil DM, aeth hi ymlaen i'r cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2, ac yna i'r cwrs Technolegau Peirianneg Lefel 2.

Yma, daeth Emma o hyd i'w galwedigaeth a symudodd ymlaen i'r cwrs Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Technolegau Peirianneg, a'i gwblhau yr haf diwethaf gyda gradd Rhagoriaeth. Erbyn hyn mae hi'n dilyn cwrs HND Peirianneg Drydanol ac Electronig yng Nghanolfan AU y Coleg.

Ochr yn ochr â'r llwyddiant academaidd hwn, mae Emma wedi bod yn seren yn stori lwyddiant cystadleuaeth WorldSkills y Coleg, gan gyrraedd y rowndiau terfynol cenedlaethol!



Emma Hill

# Defnyddia dy Gymraeg

Ein nod yw sicrhau dy fod yn cadw dy Gymraeg wrth astudio yn y coleg, beth bynnag yw lefel dy ruglder Rydym ni eisiau'r Gymraeg fod yn rhan naturiol o fywyd yma, a cefnogi datblygiad ein myfyrwyr yn yr iaith a dysgu a chymryd rhan mewn diwylliant Cymru.

## Wyt ti eisiau siarad â ni yn Gymraeg? Mi fedri wneud!

Rho wybod i ni beth yw dy ddewis iaith a wnawn ni gofnod ohono. Fedri di gael cyfweliad yn Gymraeg, grŵp tiwtorial, a dod i'n Diwrnod Croeso Cymraeg – cyfle i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill a dod i nabod pawb a'r campws cyn dechrau yn iawn ym mis Medi.

## Astudio yn Gymraeg

I ddod o hyd i fodiwlau cyfrwng Cymraeg, chwilia am y symbol yma yn y disgrifiad cwrs.

Mae rhai meysydd dysgu yn cynnig grwpiau tiwtor cyfrwng Cymraeg hefyd. Mae'n bwysig cofio bod hawl gennyt i gyflwyno gwaith yn Gymraeg. Mae siawns astudio Bagloriaeth Cymru yn Gymraeg hefyd.

## Dy hawliau iaith

Fel siaradwr Cymraeg yng Nghymru, mae gennyt hawl i ddelio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg ac i dderbyn gwasanaethau Cymraeg ganddynt. Sail yr hawliau ydy Safonau'r Gymraeg, sef rhestr o'r pethau y mae'n rhaid i sefydliadau eu gwneud yn Gymraeg.

## Cymer ran!

Mae nifer o gyfleoedd cyffrous ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys digwyddiadau, gweithgareddau a dewisiadau academaidd. Ymuna â'r Gymdeithas Gymraeg a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog drwy gydol y flwyddyn. Dere i fod yn un o'n llysgenhadon ni a helpu ni i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob campws.




**Olivia Lane yn ennill teitl Myfyriwr y Flwyddyn - Yr Iaith Gymraeg 2023.**

Ymunodd Olivia â Choleg Gŵyr Abertawe o Ysgol Gyfun Dyffryn Aman gyda phroffil TGAU ardderchog ac awydd penderfynol i ddilyn gyrfa mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod ei hamser yn y Coleg, mae hi wedi gwirfoddoli i fod yn Llysgennad yr Iaith Gymraeg ac fe weithiodd yn galed i hyrwyddo'r iaith ymhlith ei chyfoedion a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.






# Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA)

Bwriad ein cwricwlwm yw ateb anghenion myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddwch yn dilyn rhaglen ddysgu sy'n adlewyrchu'ch dyheadau a bydd yn eich helpu i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer bywyd oedolyn.

Mae'r Coleg wedi datblygu partneriaethau ardderchog gyda chyflogwyr blaenllaw yn Abertawe.



Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn sesiwn ioga.

Mae'r rhaglen astudio amrywiol yn dilyn pedwar maes:

- Sgiliau byw'n annibynnol
- Iechyd a lles
- Cyflogadwyedd
- Cynhwysiant cymunedol.

Rydym yn credu'n gryf mewn integreiddio myfyrwyr ym mywyd y Coleg, gyda chymorth llawn gan staff cymwysedig a phrofiadol iawn.

Bydd myfyrwyr SBA hefyd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a sgiliau cenedlaethol.

Gallai dysgwyr o'r adran hon symud ymlaen i:

- Gyflogaeth am dâl
- Cyflogaeth gefnogol
- Interniaeth gyda chefnogaeth
- Addysg bellach ar lefel uwch
- Gwasanaethau oedolion
- Cyflogaeth amser llawn neu ran-amser
- Cyrsiau rhan-amser.

# Cyngor a chymorth

Mae ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyngor ar bopeth o opsiynau cwrs i gyllid. Gallant roi cyfarwyddyd diduedd a phroffesiynol i chi drwy gydol y broses ymgeisio.

## Cyfarwyddyd gyrfaoedd

Mae Cynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio yn y Coleg trwy gydol y flwyddyn academaidd a gallant eich helpu chi i gynllunio eich cam nesaf.

## Llyfrgelloedd

Mae gennym lyfrgelloedd ar Gampysau Gorseinon, Tycoch a Llwyn y Bryn, a'u bwriad yw eich helpu gyda'ch astudiaethau. Mae gan bob cwrs gynghorwr llyfrgell fydd yn cydweithio â'ch darlithydd i sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o'ch llyfrgell.



## Cymorth gyda mathemateg a Saesneg

Gellir cynnwys elfennau llythrennedd a rhifedd mewn cyrsiau.

## Swyddogion cymorth myfyrwyr

Mae'r swyddogion yn darparu cymorth cyfrinachol i unrhyw fyfyriwr sydd ei angen, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, myfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl neu ddigartrefedd.

## Gwasanaethau iechyd

Gallwch drafod iechyd a dewisiadau ffordd o fyw yn gyfrinachol â'n cynghorwyr iechyd myfyrwyr.

Mae pob myfyriwr yn gallu edrych ar wefan togetherall hefyd i gael cymorth iechyd meddwl. Mae gan y wefan ymarferwyr hyfforddedig sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 dydd y flwyddyn.

Diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi ymgyrch #DiweddTlodiMislif trwy roi eitemau ar gyfer y mislif am ddim i'n myfyrwyr.

## Cymorth dysgu ychwanegol

Mae cymorth arbenigol ar gael i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau. Mae hyn yn cynnwys cymorth yn y dosbarth, gweithdai, offer arbenigol a meddalwedd addysgol.

Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn ymgeisio i sicrhau y gallwn roi'r cymorth iawn i chi.

Mae rhaglen y **Dyfodol** yn becyn cynhwysfawr o gymorth cyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe.

Fel rhan o Warant Coleg Gŵyr Abertawe, mae rhaglen y Dyfodol yn darparu cyngor a chymorth wedi'u targedu ar opsiynau cyflogaeth a phrentisiaeth, yn ogystal â mynediad i gymorth cyflogadwyedd parhaol. Mae rhaglen y Dyfodol hefyd yn gallu cynorthwyo myfyrwyr i ddod o hyd i gyflogaeth ran-amser wrth ddilyn eu hastudiaethau.




# Cymorth ariannol

Mae amrywiaeth o ffrydiau cyllid ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cwrs amser llawn, gan gynnwys:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
- Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Gall y cyllid hwn eich helpu i dalu am eich astudiaethau a'r cyfarpar sy'n hanfodol ar gyfer eich cwrs. Gall ein tîm cyllid helpu i adnabod y math o gymorth ariannol y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn.

## Ffioedd dysgu

Nid yw'r Coleg yn codi ffioedd dysgu ar fyfyrwyr o unrhyw oedran o'r Deyrnas Unedig ar gyfer addysg bellach amser llawn (15 awr yr wythnos neu fwy).

## Costau ychwanegol

Bydd gofyn i bob myfyriwr dalu ffi weinyddu ac ni ellir ei had-dalu.

Ar rai cyrsiau, efallai y bydd rhaid talu costau ychwanegol ar gyfer cyfarpar neu ddillad arbenigol. Bydd rhaid i fyfyrwyr sy'n gwneud profiad gwaith strwythuredig fel rhan o'u cwrs gael gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

# Cludiant

**Mae'r tocynnau bws i gyd wedi'u cymorthdalu.** Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ystod nosweithiau agored.

## Campws Gorseinon

Mae'r Coleg yn trefnu cludiant (gyda South Wales Transport) ar gyfer myfyrwyr amser llawn ar ddechrau a diwedd y diwrnod Coleg gan godi a gadael myfyrwyr yn y mannau codi dynodedig. Gallwch ddefnyddio'r tocynnau bws hyn ar rwydwaith First Cymru hefyd yn ystod y tymor (Llun-Gwener tan 6pm).

## Campysau Tycoch, Llwyn y Bryn a Llys Jiwbilî

Mae tocyn bws First Cymru ar gael. Gellir defnyddio'r tocyn o fis Medi hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.

Darperir bws i fyfyrwyr sy'n teithio i Gampws Tycoch o Ddwyrain Abertawe. Mae'r bws (gwasanaeth 61) yn dechrau yn Llansamlet ac yn codi myfyrwyr yng Ngellifedw, Trallwn, Winsh-wen a Bonymaen, yna mae'n mynd yn syth i'r Coleg. Mae'r bws yn gadael Tycoch am 4.35pm bob nos.

Gall myfyrwyr sy'n byw yn Llangynydd, Rhosili, Porth Einon, Oxwich neu Bennard (ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu gan First Cymru), ddefnyddio tocyn bws National Adventure Travel (NAT).

**Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch**
Advanced Skills Baccalaureate Wales

Mae'r cymhwyster Lefel 3 newydd hwn yn cynorthwyo myfyrwyr i fod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar, gan roi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol neu fyd gwaith.

Gellir dilyn y cymhwyster hwn ochr yn ochr â chymwysterau Lefel 3 eraill gan gynnwys cyrsiau Safon Uwch.

Mae'r cwrs dwy flynedd yn cynnwys tri phrosiect: Cymuned Fyd-eang, Cyrchfan y Dyfodol, ac Unigolyn, a bydd yn eich helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n ddeniadol i gyflogwyr, colegau a phrifysgolion.



# Bywyd myfyrwyr

Linktr.ee/gcsle

Mae mwy i'r Coleg na'ch astudiaethau yn unig. Rydym am i chi fwynhau'ch amser gyda ni, felly rydym yn buddsoddi'n barhaus mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf, yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd gwirfoddoli ac rydym yn sicrhau y cewch gyfle i leisio'ch barn.

Cyfoethogi Myfyrwyr
Student Enrichment

Mae nifer o gymdeithasau y gallwch ymuno â nhw, o'r clwb cynaliadwyedd i'r clwb ffilmiau a'n cymdeithas LGBTQ+. Yn ogystal â hyn, rydym yn annog ac yn helpu myfyrwyr i ddechrau clybiau newydd!

CGA Egnïol
GCS Active

Nod CGA Egnïol yw helpu ein myfyrwyr i fod yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau o bêl-fasged i ioga. Mae ein cydlynydd yn agored i awgrymiadau newydd, ac felly gallwch gysylltu â ni os oes unrhyw beth penodol yr hoffech roi cynnig arno.

## Undeb y Myfyrwyr

Gallwch ddweud eich dweud am sut mae'ch Coleg yn cael ei redeg. Mae ein Hundeb y Myfyrwyr yn cael ei reoli gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr amser llawn, etholedig, ac mae'n cael ei gynrychioli gan Grŵp Rheoli Undeb y Myfyrwyr. Ymunwch â'r Undeb fel y gallwch chi a'ch cydfyfyrwyr leisio'ch barn.



Fatima Lopes,
Llywydd Undeb y Myfyrwyr

## Gwdihŵs CGA

Tîm e-chwaraeon wedi'i leoli yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Rydym yn annog ein myfyrwyr i gyrraedd yr uchelfannau wrth greu, datblygu a chwarae gemau.

Ers gael ei sefydlu mae Gwdihŵs CGA wedi cael llwyddiannau lu gan gystadlu mewn twrnameintiau ar-lein amrywiol yn y DU ac America ac mae'r gemau wedi amrywio o Apex Legends i Valorant.

**owls.gcs.ac.uk**








## Prosiect Cenia

Mae ein Prosiect Addysg Gymunedol Cenia, a sefydlwyd yn 2006, yn codi arian i ysgol gynradd fach yng Ngorllewin Cenia o'r enw Madungu. Oherwydd ein cymorth, mae plant yn yr ysgol wedi cael eu bwydo'n ddyddiol ac mae athrawon ychwanegol wedi cael eu hurio i leihau meintiau dosbarth.

Mae ein myfyrwyr wedi mynd ar sawl taith i'r ysgol dros y blynyddoedd, i weld sut mae eu hymdrechion wedi newid bywydau. Mae pob myfyriwr yn cael ei annog i gymryd rhan yn yr ymdrechion i godi arian, ac rydyn ni'n croesawu syniadau!

# Cyfleusterau

Yn ogystal â'n cyfleusterau academaidd gwych (stiwdios celf, recordio a ffotograffiaeth, labordai gwyddoniaeth, ystafelloedd cerbydau modur ac ati), mae gennym hefyd:

## Costa Coffee

Ar Gampws Tycoch a Champws Gorseinon. Mae ffreuturau ar bob campws hefyd.

## Ystafelloedd cyffredin


Gyda Wi-Fi, sgriniau teledu a seddau.

## Bwyty'r Vanilla Pod



Mwynhewch seigiau wedi'u paratoi, eu coginio a'u gweini gan ein myfyrwyr lletygarwch ac arlwyo o dan lygad barcud darlithwyr sydd wedi treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio yn rhai o fwytai gorau'r DU. Lleolir y bwyty ar Gampws Tycoch.

## Canolfan Broadway



Ar Gampws Tycoch rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau steilio a lliwio gwallt yn ogystal â thriniaethau harddwch, therapi cyfannol a sba moethus i gyd am brisiau cystadleuol. Gwneir pob triniaeth gan ein myfyrwyr yn Broadway.

## Canolfan Chwaraeon



Mae'r Ganolfan wedi'i lleoli ar Gampws Tycoch ac mae'n cynnwys stiwdio gyflyru llawn cyfarpar, neuadd chwaraeon amlbwrpas ac ystafell bŵer. Mae aelodaeth myfyrwyr ar gael ar ddisgownt. Mae gennym ystafelloedd campfa ar Gampws Gorseinon hefyd.

# Chwaraeon

**Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod chwaraeon elit a hamdden ar gael i bob myfyriwr.**

Dilynwch ni GCSFootball_ @GCSRugbyAcademy @GCSNetball

## Academi Pêl-droed Pro:Direct

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn falch o lansio Academi Pêl-droed Pro:Direct De Cymru, yr unig Academi Bêl-droed yng Nghymru!

Sefydlwyd yn 2010, mae Academïau Pro:Direct ar gyfer chwaraewyr ifanc o bob rhywedd. Maen nhw'n rhoi modd i chwaraewyr hyfforddi'n amser llawn fel chwaraewyr proffesiynol, gyda hyfforddwyr trwyddedig UEFA a'r Gymdeithas Bêl-droed, gemau cystadleuol wythnosol a rhaglenni ffitrwydd ac adferiad ar lefel broffesiynol.

Ochr yn ochr ag Academi De Cymru, gall chwaraewyr ddewis astudio ar un o'r cyrsiau niferus yn y Coleg sy'n cyd-fynd â'r slotiau hyfforddi a'r gemau. Mae llawer o'r chwaraewyr yn dewis astudio cwrs Tystysgrif neu gwrs Diploma Cenedlaethol mewn Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed, ond mae cyrsiau eraill ar gael hefyd.



---



## Academi Rygbi

Mae'r Coleg wedi derbyn trwydded Rhaglen Rygbi mewn Addysg Undeb Rygbi Cymru ac yn cystadlu yn y Cynghrair Ysgolion a Cholegau Elit: y cynghrair uchaf sydd ar gael i sefydliadau addysg yng Nghymru. Rydym hefyd yn cystadlu yn y twrnameintiau saith-bob-ochr mwyaf yn y DU.

Nod yr Academi Rygbi Elit yw paratoi chwaraewyr ar gyfer pontio i'r gêm broffesiynol neu uwch. Mae aelodau yn cael 12 awr o amser cyswllt bob wythnos gan ein tîm hyfforddi hynod fedrus, sy'n cyd-fynd â'u haddysg. Mae amserlen yr Academi yn cynnwys sesiynau sgiliau, cryfder a chyflyru, dadansoddi perfformiad, clinigau meddygol, sesiynau un-i-un a sesiynau datblygiad cyfannol. Mae rhaglen a llwybr ar gyfer chwaraewyr rygbi merched hefyd.

Yn ogystal, rydym yn rhedeg tîm datblygu llwyddiannus i'r chwaraewyr hynny sydd am chwarae fel gweithgaredd hamdden ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

WRU OSPREYS

## Academi Pêl-rwyd

Mae Academi Pêl-rwyd CGA yn rhoi cyfle i fyfyrwyr hyfforddi a chwarae mewn amgylchedd perfformiad uchel yn lleol ac yn genedlaethol ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.

Maen nhw'n cystadlu ar y lefel uchaf o fewn cynghreiriau AOC (Cymdeithas y Colegau), gan gynnwys yr Uwch-gynghrair lle maen nhw'n wynebu'r colegau pêl-rwyd gorau yn y DU, a chyngrair Cymru lle maen nhw wedi cael llawer o fuddugoliaethau.

Mae myfyrwyr yn elwa ar hyfforddi gan staff hynod gymwysedig, a llwybr datblygu chwaraewyr sy'n cwmpasu pob agwedd ar y gêm gan gynnwys cryfder a chyflyru, dadansoddi perfformiad ac adolygiadau unigol.

Mae'r Coleg yn cynrychioli Cymru yn rheolaidd ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol AOC, gyda myfyrwyr yn ennill anrhydeddau cenedlaethol a rhyngwladol ar draws sawl llwybr Pêl-rwyd Cymru.




Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

AoC Sport For college, for life.

## Academi Criced

Mae ein dysgwyr yr Academi Griced yn elwa ar sesiynau cryfder a chyflyru, mentoriaeth a sesiynau rhwyd trwy'r gaeaf ac yn gynnar yn y gwanwyn.

Mae rhaglen gemau a chyfle i chwarae criced Colegau Cymru (os cânt eu dewis) drwy gydol tymor yr haf.

## Clwb Pêl-fasged

Mae Clwb Pêl-fasged y Coleg yn chwarae yng nghynghrair AOC ColegauCymru ac mae'n cynnig cyfle i fyfyrwyr hyfforddi a chwarae yn rheolaidd yn ystod eu cyfnod yn y Coleg.

Mae'r calendr o gemau'n cynnwys y Pencampwriaethau Cenedlaethol a chystadleuaeth bwrw allan yn y DU.

Chwaraeon ColegauCymru CollegesWales Sport

AoC Sport For college, for life.

## Clwb Syrffio ac Achub Bywydau

Mae ein clwb syrffio yn darparu ar gyfer pob lefel o ddiddordeb ac mae'n gwneud defnydd da o draethau gwych Bro Gŵyr yn ystod ein cyfnod dewisol bob prynhawn dydd Mercher.

Mae'r clwb syrffio hefyd wedi mynd i ddigwyddiadau a chymryd rhan mewn cystadlaethau yn y DU yn ogystal â theithio i wledydd Ewrop i roi cynnig ar leoliadau syrffio newydd fel rhan o brofiad ymweliad addysgol.

## Rhaglen Athletwyr Elit

Rhaglen gefnogol i fyfyrwyr sy'n cystadlu ac yn hyfforddi mewn rhaglenni chwaraeon elit allanol gan gynnwys criced, athletau, seiclo, crefftau ymladd a nofio.

Mae'r Coleg yn rhoi cymorth trwy gynllun mentora i arwain myfyrwyr fel athletwyr gyrfa, gan gydbwyso eu galwadau academaidd â'u galwadau chwaraeon elit.

Rhoddir lleoedd ar y rhaglen trwy'r broses ymgeisio ar ôl cofrestru.

## Ysgoloriaethau a Bwrsarïau Chwaraeon

Mae rhaglen ysgoloriaethau'r Coleg yn rhoi cymorth ariannol a mentoriaeth i fyfyrwyr dethol. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos gallu eithriadol yn un o'n hacademïau chwareon.

Mae bwrsarïau chwaraeon yn rhedeg ochr yn ochr â'r ysgoloriaethau i athletwyr o ddisgyblaethau eraill, seiliedig ar berfformiad rhagorol.

# Dechrau eich **taith**

1 **Dewis** eich cwrs

2 Gwneud cais ar-lein yn **gcs.ac.uk/cy**

3 **Cynnig** Coleg a **chyfweliad**

4 **Cofrestru**

5 **Dechrau**



Angen rhagor o gyngor ac arweiniad?

Cysylltu â'n tîm derbyn

**admissions@gcs.ac.uk**

## 1 **Dewis** eich cwrs

**Meddyliwch am y pynciau rydych yn llwyddo orau ynddynt a'r hyn rydych yn mwynhau ei astudio.**

Mae rhai pynciau'n cael eu hasesu trwy arholiadau, ac mae eraill yn cyfuno gwaith cwrs ac arholiadau, felly chwiliwch am y cwrs sy'n fwyaf addas i chi. Cofiwch edrych ar ofynion mynediad y cwrs.

I gael gwybodaeth fwy manwl am y cwrs ewch i **gcs.ac.uk/cy/school-leavers**

### Safon Uwch

Yn gyffredinol, mae pynciau Safon Uwch yn cael eu hastudio dros ddwy flynedd ac yn cael eu rhannu'n ddwy ran. Y flwyddyn gyntaf yw'r Safon UG, gydag asesiadau allanol ar y diwedd. Yna byddwch yn symud ymlaen i Safon U2 yn yr ail flwyddyn gyda rhagor o arholiadau i ennill y Dyfarniad Safon Uwch llawn. Rydym yn cynnig tua 40 o bynciau Safon Uwch ar ein campws yng Ngorseinon.

### Galwedigaethol

Mae ein cyrsiau galwedigaethol wedi'u dylunio i arwain at yrfaoedd penodol ac felly os ydych yn gwybod pa swydd yr hoffech ei gwneud pan fyddwch yn gadael y coleg, bydd y cyrsiau hyn yn addas i chi. Mae gwahanol lefelau ac felly gallwch ddewis yr un sydd orau i chi, gyda'r cyfle i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Rydym yn cynnig cymwysterau BTEC, NVQ a City & Guilds.

### Prentisiaethau

Ydych chi am ennill wrth ddysgu? Ariennir rhaglenni Prentisiaeth gan Lywodraeth Cymru ac maen nhw'n rhoi cyfle i chi gael profiad a chymwysterau wrth weithio – ac ni fyddant yn costio ceiniog i chi. Mae dewis o bron 50 o lwybrau gyrfa gwahanol gennym, felly cysylltwch â ni heddiw i wybod rhagor neu i gael cymorth i ddod o hyd i gyflogwr.

## Canllaw i **ofynion mynediad**

LEFEL 3

**Safon Uwch** - Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg hefyd yn ddymunol. Bydd gofynion mynediad penodol i'w gweld ym manylion y cwrs unigol.
**Beth nesaf?** Gallwch symud ymlaen i gwrs lefel prifysgol, prentisiaeth neu gyflogaeth.

**Galwedigaethol Lefel 3** - Pum gradd TGAU gan gynnwys gradd C neu uwch mewn Saesneg Iaith. Neu broffil Teilyngdod Lefel 2 ynghyd â gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith.
**Beth nesaf?** Gallwch symud ymlaen i gwrs lefel prifysgol, prentisiaeth neu waith yn y diwydiant.

## 2 Gwneud cais ar-lein yn **gcs.ac.uk/cy**

**Po gynharaf y gwnewch gais, gorau i gyd fydd eich siawns o gael lle ar eich cwrs dewis cyntaf.**

Pan fyddwch wedi dewis cwrs, gallwch wneud cais ar-lein ar ein gwefan **gcs.ac.uk/cy**

Os ydych yn ddisgybl yn Abertawe, gallwch wneud cais trwy **Fy Newis** fydd yn mynd â chi yn uniongyrchol i'n gwefan.

## 3 Cynnig coleg a chyfweliad

**Ar ôl i chi wneud cais, bydd ein tîm Derbyn yn cysylltu â chi a'ch gwahodd i gyfweliad.**

Rydym am wneud yn siŵr bod gennych yr holl gymorth sydd ei angen arnoch drwy gydol y broses ymgeisio a'ch bod yn dewis y cwrs sy'n iawn i chi. Mae ein staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y cwrs a'r Coleg.

## 4 Cofrestu

**Cewch eich gwahodd i ddod i'r Coleg i gofrestru ar ôl gorffen eich arholiadau TGAU.**

Peidiwch â phryderu os nad ydych yn cael y canlyniadau TGAU roeddech chi'n eu disgwyl neu roedd eu hangen arnoch i ddilyn y cwrs o'ch dewis – dewch i'ch apwyntiad a gallwn fynd trwy'r opsiynau gyda chi. Mae cwrs ar gael i bawb.

## 5 Dechrau

**Mae bywyd myfyriwr yn dechrau gyda llawer o weithgareddau i'ch helpu i ymgartrefu yn y Coleg a gwneud ffrindiau newydd.**

Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor, cael eich amserlen a phopeth arall sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich taith fel myfyriwr yn dechrau'n dda!

**LEFEL 2** — **Galwedigaethol Lefel 2** - Un radd C ar lefel TGAU, wedi'i hategu gan nifer o raddau D neu uwch.
**Beth nesaf?** Efallai y byddwch chi'n gallu symud ymlaen i gwrs galwedigaethol Lefel 3 neu brentisiaeth o bosib, neu chwilio am waith yn y diwydiant.

**LEFEL 1** — **Galwedigaethol Lefel 1** - Nifer o raddau D-G neu uwch ar lefel TGAU.
**Beth nesaf?** Efallai y byddwch chi'n gallu symud ymlaen i gwrs galwedigaethol Lefel 2 neu chwilio am waith yn y diwydiant.

**MYNEDIAD** — **Lefel Mynediad** - Dim cymwysterau ffurfiol.
**Beth nesaf?** Efallai y byddwch chi'n gallu dilyn cwrs Lefel 1 neu chwilio am waith.

gcs.ac.uk/cy/school-leavers

# Nosweithiau agored

5.30-7.30pm

**Dewch i un o'n nosweithiau agored a siarad â'n darlithwyr.**

Mae ein cynghorwyr derbyn yn ymweld â llawer o ysgolion yn yr ardal ac felly gallwch gael gair â nhw neu'ch cynghorwr gyrfaoedd yn yr ysgol.

## Tachwedd 2023

**Campws Llys Jiwbilî**
Nos Fercher 15

**Campws Gorseinon**
Nos Iau 16

**Campws Llwyn y Bryn**
Nos Fawrth 21

**Campws Tycoch**
Nos Iau 23

## Ionawr 2024

**Campws Gorseinon**
Nos Fawrth 16

**Campws Tycoch**
Nos Lun 22

**Campws Llwyn y Bryn**
Nos Fawrth 23

## Mawrth 2024

**Campws Gorseinon**
Nos Lun 4

**Campws Llys Jiwbilî**
Nos Fercher 6

**Campws Tycoch**
Nos Lun 11

**Campws Llwyn y Bryn**
Nos Fawrth 12

gcs.ac.uk/cy/open-event-registration

# Canlyniadau 2023

**13%** Graddau A*

**35%** Graddau A*-A*

**60%** Graddau A*-B

**82%** Graddau A*-C

**98%** Cyfradd pasio*

**Uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru.*

Gweler ein gwefan am ganlyniadau fesul pwnc

**Yn 2023, enillodd 82% o'n myfyrwyr y graddau oedd eu hangen arnyn nhw i fynd i'w prifysgol dewis cyntaf** (cyfartaledd cenedlaethol y DU oedd 79%). Mae hyn yn cynnwys 152 o fyfyrwyr sydd wedi sicrhau lleoedd yn un o brifysgolion Russell Group.

### Ailsefyll arholiadau TGAU

Peidiwch â phryderu os na chawsoch y graddau ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth neu Gymraeg (Iaith Gyntaf), gallwch ailsefyll yr arholiadau hyn yn eich blwyddyn gyntaf.

# Safon Uwch

Addysgir y cyrsiau hyn ar **Gampws Gorseinon**. Mae'r Coleg yn cynnig bron 40 o bynciau Safon Uwch, ac nid yw llawer ohonynt yn cael eu cynnig ar lefel TGAU.

Ym mhob un o'r pynciau Safon Uwch, mae'r flwyddyn astudio gyntaf yn cael ei galw yn Safon UG (sydd fel arfer yn 40% o'r dyfarniad Safon Uwch llawn) a bydd arholiadau allanol fel arfer yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

Safon U2 yw'r ail flwyddyn astudio sydd fel arfer yn 60% o'r dyfarniad Safon Uwch llawn ac mae hefyd yn cynnwys arholiadau allanol. Gallech chi ddechrau pwnc UG newydd hefyd yn yr ail flwyddyn astudio.

## Addysgu llinol

Os dewiswch gymryd un o'r pynciau Safon Uwch hyn:

- Cyfrifeg
- Technoleg Cerdd
- Hanes yr Hen Fyd
- Y Clasuron
- Dawns
- Electroneg
- Daeareg

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am ddarpariaeth linol yn eich cyfweliad. Mae darpariaeth linol yn golygu efallai na fydd gennych yr opsiwn o sefyll arholiad UG ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf.

## Cymorth tiwtorial

Byddwch yn cael tiwtor personol i helpu i fonitro'ch cynnydd academaidd. Gallwch fynychu sesiynau tiwtorial mewn grwpiau sy'n cynnwys siaradwyr gwadd, gweithgareddau menter, cyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth i lenwi ceisiadau UCAS.

## Rhaglen Sylfaen Safon Uwch

Ydych chi'n ddysgwr brwdfrydig sydd am wneud cynnydd academaidd? Oes angen i chi wella'ch graddau TGAU? Hoffech chi astudio cyrsiau Safon Uwch ond heb fodloni'r gofynion mynediad? Os felly, bydd y cwrs hwn yn addas i chi.

Mae'r cwrs yn paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau TGAU mewn pum pwnc: Saesneg Iaith, Mathemateg/Rhifedd, Astudiaethau Crefyddol, Y Cyfryngau a Daearyddiaeth. Mae hyn yn rhoi modd i ddysgwyr ailsefyll Saesneg a mathemateg wrth astudio tri phwnc TGAU newydd ar lwybr carlam.



# Eisiau mynd i **brifysgol flaenllaw?** Byddwn ni'n eich helpu!

## Anrhydeddau CGA

Anrhydeddau CGA yw'r rhaglen cymorth a chyfoethogi academaidd i fyfyrwyr a hoffai wneud cais i'r prifysgolion gorau yn y DU a thu hwnt.

Yn dechrau yn B12, byddwn ni'n eich cynorthwyo bob cam o'r ffordd drwy'r broses ymgeisio i'r brifysgol a'ch helpu i wireddu eich dyheadau.

Mae gennym ni enw cryf am ragoriaeth academaidd ac rydym yn hynod falch o lwyddiant ein myfyrwyr sy'n cynnwys:

- **Dros 30** o gyn-fyfyrwyr sy'n astudio yng Ngholegau Rhydgrawnt ar hyn o bryd.
- **Dros 50** o fyfyrwyr sydd wedi cael lleoedd meddygon, deintyddion a milfeddygon dros y ddwy flynedd diwethaf
- Cafodd **152 o fyfyrwyr** leoedd ym Mhrifysgolion Russell Group yn 2023.

Mae Anrhydedd CGA wedi'i chynnwys ar yr amserlen fel rhan o'ch cynnig Safon Uwch a bydd yn eistedd ochr yn ochr â'ch pynciau academaidd. Wrth wraidd ein rhaglen mae ein tiwtorialau her academaidd: sesiynau bob wythnos i ddatblygu eich sgiliau meddwl a darllen beirniadol, a sgiliau ymchwil.

Byddwch chi hefyd yn cadw dyddiadaur academaidd myfyriol a fydd yn eich cynorthwyo i dreiddio'n ddyfnach i'ch pwnc a thrafod syniadau heriol ac ymchwil gyda chyfoedion o gyffelyb fryd.

Bydd myfyrwyr Anrhydeddau CGA yn cael cyfle i gymryd rhan yn **Academi Seren** a **Rhaglen HE+ Prifysgol Caergrawnt.** I'r myfyrwyr hynny sydd ag uchelgeisiau i ymgeisio am gyrsiau a chyrchfannau prifysgol mynediad-cynnar, bydd ein **Rhaglen Paratoi ar gyfer Rhydgrawnt** a'n **Rhaglen Meddygon**, **Deintyddion a Milfeddygon** yn darparu cymorth, help a chyfarwyddyd ychwanegol.

## Rhwydwaith Seren

Coleg Gŵyr Abertawe yw'r hyb ar gyfer Rhwydwaith Seren Abertawe. Mae Rhwydwaith Seren, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn helpu'r **myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd o bob ysgol wladol** i gael mynediad i'r prifysgolion gorau yn y byd.

## HE+

Ar wahoddiad **Prifysgol Caergrawnt**, ni yw'r **unig goleg** yng Nghymru sy'n rhedeg rhaglen HE+. Mae HE+ yn datblygu sgiliau academaidd ac yn eich annog i herio eich hunain a'ch gilydd mewn amgylchedd cefnogol.

## Rhaglen Paratoi ar gyfer Rhydgrawnt

Mae'r rhaglen hon yn para blwyddyn ac mae'n rhoi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i fyfyrwyr fel y gallant wneud ceisiadau cystadleuol i Rydychen neu Gaergrawnt.

## Ceisiadau i astudio meddygaeth

Os ydych wedi mynegi diddordeb yn y **gwyddorau meddygol, milfeddygaeth** a **fferylliaeth** cewch sesiynau tiwtorial wythnosol sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd, cysgodi gwaith, siaradwyr gwadd a cheisiadau i brifysgolion.

# Bron 40 o bynciau

## i ddewis ohonynt!


| | Tudalen |
|---|---|
| Addysg Gorfforol | 54 |
| Addysg Grefyddol – Athroniaeth a Moeseg | 44 |
| Amgylchedd Adeiledig | 24 |
| Astudiaethau Busnes | 26 |
| Astudiaethau Cyfryngau | 20 |
| Bioleg | 46 |
| Celfyddyd Gain | 20 |
| Cemeg | 46 |
| Cerddoriaeth | 50 |
| Cyfrifeg | 26 |
| Cyfrifiadureg | 31 |
| Cymdeithaseg | 47 |
| Cymraeg – Ail Iaith | 44 |
| Daeareg | 46 |
| Daearyddiaeth | 43 |
| Dawns | 50 |
| Drama | 50 |
| Dylunio Graffig (Cyfathrebu) | 20 |
| Dylunio Tecstilau (Ffasiwn/Mewnol) | 20 |
| Economeg | 26 |
| Electroneg | 33 |
| Ffiseg | 46 |
| Ffotograffiaeth | 20 |
| Ffrangeg | 43 |
| Gwareiddiad Clasurol | 43 |
| Hanes | 44 |
| Hanes yr Hen Fyd | 43 |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant | 39 |
| Llywodraeth a Gwleidyddiaeth | 43 |
| Mathemateg | 46 |
| Mathemateg Bellach | 46 |
| Saesneg Iaith | 43 |
| Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | 43 |
| Saesneg Llenyddiaeth | 43 |
| Sbaeneg | 44 |
| Seicoleg | 47 |
| Technoleg Cerdd | 50 |
| Technoleg Ddigidol | 31 |
| Y Gyfraith | 26 |

# Rhesymau i ddewis cwrs galwedigaethol

**40+** Dewis o **dros 40 o gyrsiau**

**Ffocws** ar yrfaoedd

Cyrsiau **sy'n cael eu harwain gan y diwydiant**

**Ymarferol**

UCAS Lefel 3 **yn gyfwerth â Safon Uwch**

**Opsiynau** dilyniant

# Galwedigaethol


Gellir astudio cyrsiau galwedigaethol ar Lefelau 1, 2 neu 3 yn dibynnu ar allu. Maen nhw'n cyfuno dysgu ymarferol â chynnwys pynciol a theori academaidd. Mae'r rhain yn gymwysterau sy'n canolbwyntio ar yrfa ac maen nhw'n rhoi sgiliau, gwybodaeth bynciol a phrofiad i fyfyrwyr er mwyn iddynt ddilyn amrywiaeth o yrfaoedd o fewn y sector o'u dewis, ac ar yr un pryd yn darparu llwybr clir i'r brifysgol neu brentisiaeth, yn dibynnu ar y llwybr o'u dewis.

Bydd y rhan fwyaf o byncíau yn cynnwys rhyw fath o asesu allanol ac asesu trwy waith cwrs. Mae llawer o'r cyrsiau hyn yn cynnwys lleoliad profiad gwaith a/neu ddysgu cysylltiedig â gwaith er mwyn i fyfyrwyr gael profiad uniongyrchol o weithio yn eu sector.

Mae cyrsiau galwedigaethol yn gyrsiau annibynnol nad oes modd eu cyfuno â phynciau/cyrsiau eraill fel arfer.

Mae gan y Coleg gysylltiadau penigamp â chyflogwyr a bydd myfyrwyr yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr diwydiant mewn cyfleusterau pwrpasol gydag adnoddau o safon diwydiant.









## Mae gennym gyrsiau galwedigaethol yn y meysydd canlynol:

- Amgylchedd adeiledig
- Arlwyo a lletygarwch
- Busnes
- Celf a dylunio
- Cerbydau modur
- Cerddoriaeth
- Cyfrifiadura a thechnoleg
- Chwaraeon
- Ffotograffiaeth
- Garddwriaeth
- Gwallt, harddwch a holisteg
- Gwasanaethau cyhoeddus ac amddiffynnol
- Gwyddoniaeth
- Iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant
- Peirianneg
- Teithio a thwristiaeth
- Y celfyddydau perfformio a chynhyrchu theatr
- Y cyfryngau creadigol

# Prentisiaethau

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn un o’r darparwyr prentisiaethau mwyaf blaenllaw yng Nghymru, gan gynnig amrywiaeth eang o raglenni prentisiaeth arobryn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae mwy a mwy o ymadawyr ysgol yn cofrestru ar gyfer prentisiaethau fel dewis arall i gyrsiau Safon Uwch neu alwedigaethol, gan geisio ennill sgiliau a gwybodaeth ymarferol mewn maes penodol.

Mae prentisiaethau yn darparu profiad ymarferol yn y byd go iawn sy’n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau perthnasol i’r proffesiwn o’ch dewis. Fel prentis, byddwch yn ennill wrth ddysgu, gan ennill yr wybodaeth, y sgiliau a’r profiad y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, gan y bydd cyfle gennych i gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol yn uniongyrchol i dasgau ymarferol.

Gall pobl o **unrhyw oedran** ddilyn prentisiaeth ar yr amod eu bod yn gyflogedig am o leiaf 16 awr yr wythnos. Os ydych yn chwilio am waith, gall ein tîm Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol eich helpu (gweler tudalen 7).

Un o’r agweddau mwyaf atyniadol ar brentisiaethau yw’r ffaith eich bod yn ennill cyflog wrth ddysgu. Gall hyn helpu i dalu costau addysgol a darparu sefydlogrwydd ariannol yn ystod eich cyfnod hyfforddi.

Gallwch ddechrau prentisiaeth ar lefel sy’n addas i chi, gan ddechrau ar lefel sylfaen gyda chyfle i symud ymlaen i lefel uwch reolwr. Eich dewisiadau lefel mynediad yw **Prentisiaeth Sylfaen (Lefel 2)** neu **Brentisiaeth (Lefel 3)** gyda’r posibilrwydd o symud ymlaen i **Brentisiaeth Uwch (Lefel 4 a Lefel 5).**

Mae nifer o brentisiaid yn cael cynnig swyddi parhaol gan y cwmni lle cwblhaon nhw eu hyfforddiant, ac os na, bydd y sgiliau a’r wybodaeth a enilloch chi yn ystod y rhaglen brentisiaeth yn eich gwneud yn ymgeisydd mwy deniadol i gyflogwyr eraill yn y diwydiant.

Diddordeb mewn prentisiaeth? Cysylltwch â’n tîm nawr!

**wbladmissions@gcs.ac.uk**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cael ei gydnabod am ei **ddarpariaeth ragorol ym maes prentisiaethau** yng Ngwobrau Prentisiaeth AAC y DU 2022.



**Rydym yn cynnig Prentisiaethau yn y meysydd canlynol:**

- Adnoddau cynaliadwy a gwastraff (CIWM)
- Adwerthu
- Arwain gweithgareddau/Gwaith ieuenctid
- Cefnogi dysgu ac addysgu/Addysg gorfforol mewn ysgolion
- Cerbydau modur
- Cyfrifeg (AAT, ACCA)
- Cyfryngau creadigol a digidol
- Cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes
- Cyngor ac arweiniad
- Cymorth cymwysiadau digidol
- Cymorth cymwysiadau digidol TG
- Cynnal a chadw beiciau (peirianneg cynnal a chadw)
- Dadansoddeg data
- Datblygiad cymunedol
- Datblygu chwaraeon
- Defnyddiwr TG
- Diogelwch gwybodaeth
- Dysgu a datblygiad
- Eiriolaeth
- Electroneg
- Ffasiwn a thecstilau
- Gofal iechyd clinigol neu amdriniaethol
- Gofal plant
- Gosod carpedi a lloriau
- Gwaith brics
- Gwaith coed
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Gweinyddu busnes
- Gweithrediadau canolfan gyswllt
- Gweithrediadau nwy
- Gweithrediadau tân mewn argyfwng
- Gyrfaoedd, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Labordy a gwyddoniaeth
- Marchnata digidol
- Peintio ac addurno
- Peiriannau adeiladu, priffyrdd, ffurfwaith
- Peirianneg
- Peirianneg sifil adeiladu
- Plastro
- Plymwaith
- Rheolaeth (CMI, ILM)
- Rheoli cyfleusterau (IWFM)
- Systemau diogelwch a brys
- Tai
- Technegau gwella busnes
- TG, meddalwedd, y we a thelathrebu
- Trydanol
- Warysau a storio
- Ymarfer cyfieithu (Cymraeg)
- Ymarfer dysgu digidol



# Celf, Dylunio a'r Cyfryngau

Mae dewis cwrs o fewn y diwydiannau creadigol yn gallu arwain at amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa. Mae'n sector sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir i'r duedd hon barhau.

Maen nhw ar y teledu, ar eich ffôn, ar y rhyngrwyd ac ar y newyddion. Enillwch sgiliau i lwyddo yn ein byd sy'n cael ei yrru fwyfwy gan dechnoleg.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

Mae gan **Fargen Ddinesig Bae Abertawe** nifer o brosiectau gyda'r nod o gefnogi'r sector celfyddydau creadigol a gweledol.

- Dylunydd graffig
- Ffotograffydd
- Gwneuthurwr ffilmiau
- Animeiddiwr
- Creawdwr cynnwys digidol
- Hysbysebu
- Cynllunydd ffasiwn
- Cynllunydd cartref

**DARGANFOD!**
**#WythnosGyrfaoeddCreadigol**

Mae cynifer o opsiynau ar gael – ewch ati i ymchwilio heddiw!

Trefnodd yr **Hyrwyddwr Menter Susanne David** sêl celf ddiwedd blwyddyn, gan gynnwys gwaith pensil gan Ryan Jones, sy'n astudio Celf a Dylunio Lefel 2 gyda ni. Rydyn ni'n siŵr y byddwch chi'n cytuno bod ei fanylder yn anhygoel! Mewn gwirionedd, cafodd darn Vivienne Westwood ei werthu ymlaen llaw i un o'i hedmygwyr brwd cyn y prif ddigwyddiad.



## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Celfyddyd Gain** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Bydd myfyrwyr yn archwilio amrywiaeth o gelf, cyfryngau, prosesau a thechnegau gan astudio dulliau traddodiadol a newydd. Byddwch yn gweithio mewn un maes neu fwy o gelfyddyd gain e.e. darlunio a pheintio, cyfryngau cymysg (gludwaith), gwneud printiau a ffotograffiaeth, gosodiadau / safle penodol neu fideo. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd C ar lefel TGAU mewn pwnc celf neu bortffolio o waith celf. | | | |
| **Dylunio Graffig (Cyfathrebu)** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Cewch gyfle i gynhyrchu gwaith ymarferol a beirniadol/cyd-destunol mewn meysydd sy'n cynnwys darlunio, hysbysebu, dylunio pecynnau, dylunio ar gyfer print, graffeg gyfathrebu, graffeg gyfrifiadurol, ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau cysylltiedig â'r cyfryngau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Argymhellir TGAU mewn Cyfathrebu Graffig, Celf a Dylunio, Astudiaethau Cyfryngau neu TGCh, neu dystiolaeth o waith fel fideo neu bortffolio/llyfr brasluniau. | | | |
| **Astudiaethau Cyfryngau** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Bydd y cwrs hwn yn cynnig cyfle i chi ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o'r ffordd y mae'r cyfryngau yn chwarae rôl ganolog mewn diwylliant cyfoes, cymdeithas a gwleidyddiaeth. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith neu Lenyddiaeth. | | | |
| **Ffotograffiaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Dewch i gychwyn taith greadigol trwy fyd cyfareddol ffotograffiaeth. Nod y cwrs hwn yw datblygu eich sgiliau technegol a'ch gweledigaeth artistig wrth feithrin eich angerdd am wneud delweddau. Byddwch yn archwilio gwahanol dechnegau ffotograffig, digidol a thraddodiadol, gweithio gyda ffilm a gwneud printiau ystafell dywyll du a gwyn. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Argymhellir TGAU yn un o bynciau'r celfyddydau creadigol, ond nid yw'n hanfodol. | | | |
| **Dylunio Tecstilau - Dylunio Ffasiwn/Mewnol** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Byddwch chi'n dysgu cysyniadau sylfaenol dylunio tecstilau, gan gynnwys gwaith ymchwil ar arlunwyr/dylunwyr proffesiynol a ffynonellau hanfodol eraill o ymchwil. Trwy brosiectau ymarferol a gweithdai, bydd myfyrwyr yn cael profiad ymarferol o ddatblygu technegau tecstilau h.y. brodwaith peiriant ac â llaw, gwaith gleiniau, laser, gwneud creadigol ac ati. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Argymhellir gradd C mewn pwnc celf ar lefel TGAU, ond nid yw'n hanfodol. | | | |




**Cafodd myfyrwyr ar amrywiaeth o gyrsiau celfyddydau creadigol a gweledol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe gyfle gwych i gwrdd â chyflogwyr a darlithwyr prifysgol yn ystod arddangosfa gyntaf erioed Design 48, a gynhaliwyd ar Gampysau Gorseinon a Llwyn y Bryn.**

Datblygwyd y syniad y tu ôl i Design 48 gan y Coleg ar y cyd â Rachael Wheatley o Waters Creative.

Yn gyfres o sgyrsiau a sesiynau blasu ymarferol, nod Design 48 yw ysbrydoli dysgwyr a hybu eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae hefyd yn ceisio codi eu dyheadau a'u hymwybyddiaeth o'r ystod eang o lwybrau addysgol a gyrfa sydd ar gael iddynt yn y diwydiannau creadigol.



**Cafodd ein myfyrwyr lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri.**

Bu dros 60 o fyfyrwyr i gyd yn cystaldu mewn amrywiol gystadlaethau llwyfan a gwaith cartref. Coleg Gŵyr Abertawe oedd y coleg addysg bellach mwyaf llwydianus o'r holl golegau yng Nghymru eleni.

Yn ogystal â hyn aeth gwobr arbennig i Lara Rees am gyflwyno'r darn o waith gorau i'r rhai dan 19 o'r holl gystadlaethau celf, dylunio a thechnoleg yn yr Eisteddfod.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Celf a Dylunio** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Llwyn y Bryn** |

Byddwch yn creu celf a ffotograffiaeth 2D/3D draddodiadol, a chymryd rhan mewn prosiectau dylunio digidol creadigol i gynyddu sgiliau personol, creadigol a thechnegol. **Gofynion mynediad:** Nifer o gymwysterau TGAU gradd D-G. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Celf a Dylunio** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Llwyn y Bryn** |

Cyflwyniad cadarn i'r ystod o ddisgyblaethau ymarferol o fewn celf a dylunio megis arlunio, peintio, cerameg, cerflunwaith, tecstilau, graffeg, ffotograffiaeth a chyfeiriadau cyd-destunol. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd D ar lefel TGAU. Gradd A-C mewn TGAU Celf a Dylunio yn ddymunol. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Celf a Dylunio** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Llwyn y Bryn** |

Cewch eich herio gydag amryw o friffiau cyffrous a fydd yn eich annog i archwilio eich creadigrwydd a magu hyder wrth gyfleu syniadau mewn amrywiaeth o gyfryngau. **Gofynion mynediad:** Pum gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Celf a Dylunio. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol a Thechnoleg** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Gorseinon** |

Byddwch yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd yn y cyfryngau a byddwch yn creu amrywiaeth o gynhyrchion megis fideo, sain a dylunio graffig. **Gofynion mynediad:** Un radd C ar lefel TGAU wedi'i hategu gan nifer o raddau D-E.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol a Thechnoleg** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Rydym bellach yn cynnig y cwrs hwn gyda thri llwybr penodol: graffeg a ffotograffiaeth; ffilm, graffeg symudol ac effeithiau gweledol; cynnwys creadigol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a marchnata. **Gofynion mynediad:** Pum gradd A-C ar lefel TGAU neu Ddiploma Lefel 2 mewn Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol a Thechnoleg. Bydd gofyn i chi gyflwyno portffolio o waith celf yn eich cyfweliad.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Ffotograffiaeth** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Llwyn y Bryn** |

Byddwch yn astudio technegau, prosesau a chysyniadau ffotograffwyr eraill. Byddwch yn cwblhau themâu megis ymateb i friff, gwireddu syniadau a thrin delweddau. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd D ar lefel TGAU. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Ffotograffiaeth** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Llwyn y Bryn** |

Cewch eich herio gyda nifer o friffiau creadigol i ddatblygu canlyniadau ffotograffiaeth yn y stiwdio ac ar leoliad. Byddwch yn archwilio amrywiaeth o *genres* gan gynnwys hysbysebu, ffasiwn, dogfennol a theithio. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU. Yn amodol ar gyfweliad ac enghreifftiau o waith.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Ffasiwn a Thecstilau** | **Lefel 2/3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Diploma Sylfaen Celf a Dylunio Lefel 3**
  Mae'r cwrs blwyddyn hwn yn ddelfrydol i'r rhai a hoffai ddilyn gyrfa mewn celf a dylunio ar lefel broffesiynol. Bydd yn rhoi cyfle i chi astudio cyfryngau newydd i ddatblygu eich portffolio a'ch arddull unigol.
- **Gradd Sylfaen mewn Effeithiau Gweledol a Graffeg Symudol**

Neu gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol, dechrau'ch busnes eich hun, gweithio ar eich liwt eich hun neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.

Roedd **arddangosfa gelf yr haf - Dod i'r Wyneb** – yn arddangosfa arbennig o dalent a chreadigrwydd oedd yn cynnwys gwaith eithriadol ein dysgwyr Safon Uwch a Galwedigaethol Lefel 3. Roedd y gyfres o arddangosfeydd yn blatfform i'r genhedlaeth nesaf o artistiaid a dylunwyr fynegi eu safbwyntiau ar themâu a materion amrywiol.

Gweld y daith rithwir o'r arddangosfa.





# Amgylchedd Adeiledig

Gydag amrywiaeth o grefftau i ddewis o'u plith, bwlch sgiliau lleol a thwf disgwyliedig yn y dyfodol, mae digon o gyfleoedd i symud ymlaen o fewn y sector hwn.

Addysgir y cyrsiau mewn gweithdai o safon diwydiant, gan roi modd i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa yn y sector.

Mae'r cymhwyster Safon Uwch hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd megis pensaernïaeth, syrfëo a rheoli safle adeiladu.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Gweithiwr adeiladu
- Saer coed
- Plymwr
- Trydanwr
- Teilsiwr
- Plastrwr
- Peintiwr ac addurnwr
- Peiriannydd sifil
- Pensaer
- Rheolwr safle
- Syrfëwr
- Arolygydd adeiladu

Mae gan **Fargen Ddinesig Bae Abertawe** nifer o brosiectau sydd â'r nod o gefnogi'r sector amgylchedd adeiledig.



**Coleg yn cydweithio â byd diwydiant i gyfoethogi profiad y myfyrwyr**

Mae'r Coleg yn parhau â'i bartneriaeth werthfawr â CITB, gan elwa ar gymorth newid cymwysterau adeiladu, gwell ymgysylltiad rhwng y dysgwr a'r cyflogwr drwy fentrau fel 'Cyfle ar y Safle' a mwy. Mae'r rhaglen 'Cyfle ar y Safle', ar y cyd â Chyngor Abertawe a Kier, yn cynnig profiad gwaith ar y safle, lwfans hyfforddi, a phecyn offer yn y grefft a ddewisir gan y myfyriwr.

Roedd y Coleg hefyd yn falch o groesawu rhagbrawf rhanbarthol SkillBuild CITB 2023, gyda 100 o fyfyrwyr yn cystadlu mewn naw categori yn Llys Jiwbilî – ein Campws Amgylchedd Adeiledig pwrpasol.

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Adeiledig** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cymhwyster hwn yn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r amgylchedd adeiledig (e.e. adeiladu tai, peirianneg sifil, adeiladau preswyl a masnachol). **Gofynion mynediad ychwanegol:** Mae gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg, Amgylchedd Adeiledig neu Ddylunio a Thechnoleg yn ddymunol.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Astudiaethau Gwasanaethau Adeiladu - Plymwaith a Thrydanol** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol i'ch paratoi ar gyfer cyflogaeth neu astudiaethau pellach. **Gofynion mynediad:** Cymwysterau TGAU yn ddelfrydol, yn amodol ar gyfweliad. Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr yn cael eu rhoi yn uniongyrchol ar gwrs Lefel 2 os yw'n addas.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau Adeiladu – Amlsgiliau** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Llys Jiwbilî** |

Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad delfrydol i'r diwydiant, gan ennill dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o amrywiaeth o grefftau fel peintio ac addurno, gwaith coed a saernïaeth, gwaith brics, teilsio, trydanol, plymwaith a phlastro. **Gofynion mynediad:** Cymwysterau TGAU yn ddelfrydol, yn amodol ar gyfweliad. Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr yn cael eu rhoi yn uniongyrchol ar gwrs Lefel 2 os yw'n addas.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Gwaith Brics** | **Lefel 3** |
| **Electrodechnegol** | **Lefel 3** |
| **Peintio ac Addurno** | **Lefel 3** |
| **Plastro** | **Lefel 3** |
| **Plymwaith** | **Lefel 3** |
| **Gwaith Coed** | **Lefel 3** |
| **Gweithrediadau Nwy** | **Lefel 2/3** |
| **Gosod Carpedi a Lloriau** | **Lefel 2** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Lefel 2 a Lefel 3 yn y llwybr o'ch dewis**
- **HNC mewn Rheolaeth Adeiladu**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.




# **Busnes, Cyfrifeg** a'r **Gyfraith**

Ar ôl cwblhau'ch cymwysterau gallech ddefnyddio'ch sgiliau trosglwyddadwy i gael hyd i gyflogaeth yn y sector busnes a chyllid sy'n tyfu.

Neu, gallech ddewis aros yn y Coleg ac astudio cwrs addysg uwch cysylltiedig gyda ni.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Datblygu busnes
- Banciwr buddsoddi
- Dadansoddwr data
- Cyfrifydd siartredig
- Entrepreneur
- Cyfreithiwr corfforaethol
- Rheolwr prosiect



**Mae'r myfyriwr busnes Heledd Hunt yn brysur yn dilyn ei hastudiaethau Lefel 3 ochr yn ochr â rhedeg ei chwmni ei hun Hels Bakes Cakes.**

"Y cyngor y byddwn i'n ei roi i ddarpar entrepreneuriaid eraill yw - dewch o hyd i rywbeth sydd o ddiddordeb i chi ac ewch amdani," meddai Heledd. "Does dim byd yn eich dal yn ôl, ac ar ôl dechrau mae'r byd i gyd o'ch blaen! Byddwn i hefyd yn dweud wrthyn nhw am gymryd mantais o'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o hysbysebu eu hunain. Bydd treulio amser yn gwneud hynny bob dydd yn helpu i adeiladu'ch brand a bydd yn talu ar ei ganfed yn y pen draw."

# Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifeg** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Byddwch yn adeiladu gwybodaeth o'r cysyniadau allweddol, egwyddorion a thechnegau sy'n gymwys i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Byddwch yn datblygu'ch gallu i ddatrys problemau mewn ffordd resymegol, dadansoddi data mewn ffordd drefnus, gwneud dewisiadau rhesymegol a chyfathrebu'n effeithiol. Mae opsiwn i astudio cymwysterau gyda'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifeg (AAT). **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B o leiaf mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith. | | | |
| **Astudiaethau Busnes** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Nod y cwrs yw darparu dealltwriaeth gyfannol o fusnes a'r penderfyniadau a wneir gan reolwyr mewn amrywiaeth o gyd-destunau – byddwch chi'n archwilio swyddogaethau craidd fel marchnata, cyllid, adnoddau dynol a gweithrediadau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Mae gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith yn hanfodol. | | | |
| **Economeg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Ar y cwrs hwn byddwch yn canolbwyntio ar ficro-economeg a macro-economeg. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B o leiaf mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith. | | | |
| **Y Gyfraith** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cwrs hwn yn eich annog i ddatblygu diddordeb a dealltwriaeth o'r system gyfreithiol gyfredol yng Nghymru a Lloegr. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith. | | | |
| **Troseddeg** | **Lefel 3** Diploma Cymhwysol | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i'w astudio ochr yn ochr â chyrsiau Safon Uwch. Bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i waith theori a chymhwyso sgiliau troseddeg h.y. newid ymwybyddiaeth o drosedd a damcaniaethau troseddegol. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B o leiaf mewn TGAU Saesneg Iaith. | | | |

**Mae William Evans, myfyriwr Coleg Gŵyr Abertawe, yn dangos doniau ymarferol go iawn ym maes entrepreneuriaeth er ei fod yn ddim ond 16 oed.**

Mae Will yn astudio cwrs BTEC Busnes ar Gampws Gorseinon, a ddwy flynedd yn ôl dechreuodd werthu wyau o dyddyn ei deulu ym Mro Gŵyr. Gan fod y gymuned mewn cyfnod clo ar y pryd, mentrodd Will i gynnig gwasanaeth dosbarthu i gartrefi oedd yn boblogaidd iawn gyda'i gwsmeriaid a oedd yn awyddus i siopa'n lleol.

Er ei fod yn dal i werthu wyau o flwch gonestrwydd yn y Crwys, mae gorwelion busnes Will bellach wedi ehangu trwy ddatblygu fferm anifeiliaid anwes gan gynnwys alpacas, moch cwta, geifr a chwningod.

Gyda chymorth a chefnogaeth ei deulu, mae fferm anifeiliaid anwes




Will wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r gymuned leol. Mae'n arbennig o boblogaidd gyda chylchoedd chwarae lleol sy'n dod â'r plant draw i gwrdd â'r anifeiliaid a'u mwytho mewn amgylchedd diogel.

Mae talentau busnes Will eisoes wedi denu sylw'r cyfryngau, ac yn ddiweddar ymddangosodd ar bennod o Coast and Country ar ITV.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Busnes a Gweinyddu** | **Lefel 2** Tystysgrif | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Bydd y cwrs hwn yn cynnig cyfle i chi astudio nifer o swyddogaethau busnes gan gynnwys marchnata, rheoli adnoddau dynol, cynllunio busnes, dylunio gwefannau a TGCh gyda phwyslais ar weinyddu busnes. **Gofynion mynediad:** Un radd C a thair gradd D ar lefel TGAU neu bas ar gwrs Lefel 1 mewn pwnc cysylltiedig. | | | |
| **Busnes** | **Lefel 3** Diploma gyda SBChLl | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |
| Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd am astudio gwasanaethau ariannol, marchnata a rheoli busnes. Mae'n cynnwys Diploma Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain (SBChLl). Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth ag astudio diploma estynedig. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith. Neu gymhwyster Lefel 2 cysylltiedig ochr yn ochr â gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith. | | | |
| **Busnes** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth â thair Safon Uwch. Nod y cwrs yw datblygu'ch sgiliau meddwl, ymchwil, ymarferol a rhyngbersonol yn gyfannol mewn meysydd fel marchnata, cyllid, adnoddau dynol a rheoli. Gallwch ddewis astudio cwrs Safon Uwch cysylltiedig ochr yn ochr â'r cwrs hwn hefyd. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith. Neu gymhwyster Lefel 2 cysylltiedig ochr yn ochr â gradd C mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith. | | | |

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT)** | **Lefel 2/3/4** |
| **Gweinyddu Busnes** | **Lefel 2/3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Busnes - Cwrs Carlam Lefel 3**
  Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth â dwy Safon Uwch a gellir ei astudio yn annibynnol neu ar y cyd â phwnc arall - fformat cwrs sy'n unigryw i'r Coleg. Mae'n darparu llwybr carlam i chi gyflawni eich diploma ac fe'i hanelir at ddysgwyr sydd eisoes wedi dechrau eu hastudiaethau Lefel 3.
- **HND/BA (Anrh) mewn Rheolaeth Busnes**
- **Cymwysterau cyfrifeg AAT Lefelau 2-4**
- **Cymwysterau cyfrifeg ACCA Lefelau 4-7**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol, dechrau'ch busnes eich hun neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.

APPROVED LEARNING PARTNER ACCA Platinum

Coleg Gŵyr Abertawe yw'r unig goleg addysg bellach yn y DU i ennill statws Partner Dysgu Cymeradwy Platinwm gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig).



# Arlwyo a Lletygarwch

Defnyddiwch eichhoffter o goginio i greu'r safonau gwasanaeth lletygarwch gorau. Mae gan fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn y fantais o weithio mewn amgylchedd proffesiynol wrth iddynt baratoi a gweini bwyd yn y Vanilla Pod, bwyty hyfforddi'r Coleg ar Gampws Tycoch.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Cynorthwyydd cegin/arlwyo
- Pen-cogydd
- Staff gweini
- Staff bar
- Rheolwr arlwyo/bar

Roedd 120 o ddisgyblion o chwe ysgol yn Abertawe wedi mwynhau **diwrnod blasu lletygarwch** yn y Coleg gyda Sioe Deithiol Fforwm y Cogyddion.









## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Letygarwch ac Arlwyo** | **Mynediad Lefel 3** | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Cyflwyniad i'r diwydiant arlwyo a lletygarwch trwy baratoi a choginio amrywiaeth o seigiau a gweini bwyd a diod. **Gofynion mynediad:** Nid oes angen cymwysterau ffurfiol. | | | |
| **Coginio ac Arlwyo Proffesiynol** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Enillwch yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i gael cymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant a chael gyrfa mewn paratoi a choginio bwyd. **Gofynion mynediad:** Tair gradd E ac uwch ar lefel TGAU. Byddwn yn ystyried ymgeiswyr hefyd yn seiliedig ar gyfweliad. | | | |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Diploma Lefel 2 mewn Coginio ac Arlwyo Proffesiynol**
  Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu'ch sgiliau ymarferol ymhellach trwy baratoi a choginio seigiau clasurol a chyfoes ar gyfer bwyty hyfforddi'r Vanilla Pod.

Neu gallech chi gael cyflogaeth yn y diwydiant.

Diolch i Fforwm y Cogyddion, **mae cogyddion proffesiynol yn ymweld â'r Coleg** drwy gydol y flwyddyn academaidd i gynnal arddangosiadau coginio.

Mae'r rhain wedi cynnwys cogyddion proffil uchel megis Hywel Griffiths, pen-cogydd Bwyty'r Beach House, a Dan Lee, enillydd Masterchef The Professionals.

Roedden ni hefyd yn falch dros ben o groesawu'n ôl ein cyn-fyfyriwr arlwyo, Nick Jones, a symudodd drwy'r lefelau i gwblhau Diploma Lefel 3 mewn Coginio Proffesiynol Uwch (Cegin a Phantri) gyda ni.








# Cyfrifiadura a Thechnoleg

Rydym yn byw mewn byd cynyddol ddigidol lle mae galw mawr am sgiliau TG bob amser. Byddwch ar y blaen i Ddeallusrwydd Artiffisial a darganfod cyfleoedd diderfyn mewn byd sy'n cael ei ysgogi gan dechnoleg.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Systemau gwybodaeth cyfrifiadurol
- Gwaith fforensig ar gyfrifiaduron
- Datblygu gemau cyfrifiadurol
- E-chwaraeon
- Seiberddiogelwch
- Rhywdweithio cyfrifiadurol
- Cyfrifiadureg

Mae gennym dîm e-chwaraeon llwyddiannus, i wybod rhagor ewch i

**owls.gcs.ac.uk**





Yn ddiweddar, cynhaliodd Coleg Gŵyr Abertawe **Ragbrawf Technoleg Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.**

Roedd dros 80 o fyfyrwyr – o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Cambria, Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr, Coleg y Cymoedd, Grŵp NPTC, Coleg Dewi Sant ac Ysgol Pen-y-bryn – wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau ar y diwrnod.

"Roedden ni'n falch iawn o gynnal y Rhagbrawf Technoleg a chroesawu dysgwyr o bob rhan o Dde Cymru i hogi eu sgiliau TG a chystadlu yn erbyn eu cyfoedion talentog gyda'r siawns o ennill medal," meddai'r Rheolwr Maes Dysgu, Darren Fountain.

"Yn ogystal â'r cystadlaethau, cawson nhw gyfle i ymlacio a chymdeithasu gyda'i gilydd yn eu hamser segur, a mwynhau rhoi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau a ddarparwyd gan ein staff a'n dysgwyr Technoleg. Roedd y rhain yn cynnwys ein hefelychydd rasio F1, sialens cynnal a chadw cyfrifiadur, cynyrchiadau Green Screen a hyd yn oed sialens ystafell ddianc seiber dan ofal Tarian ROCU."

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifiadureg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Cewch gyfle i ddatblygu sgiliau rhaglennu ynghyd â gwybodaeth o galedwedd a meddalwedd. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith. Byddai cymhwyster TGAU mewn Cyfrifiadureg/TGCh yn fanteisiol.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technoleg Ddigidol** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd y cwrs hwn yn gwella'ch dealltwriaeth o'r technolegau digidol a ddefnyddir gan unigolion a sefydliadau, gan edrych ar sut maen nhw'n datblygu. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Mathemateg yn hanfodol.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Mae'r cwrs yn gyflwyniad i'r rolau sy'n bodoli yn y diwydiant TG. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd E ar lefel TGAU a chyfweliad.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol** | **Lefel 2** Diploma Cyntaf | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Mae'r cwrs yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau arbenigol fydd yn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant. **Gofynion mynediad:** Dwy radd C ar lefel TGAU neu'r Diploma Lefel 1 mewn Technoleg Gwybodaeth.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifiadureg** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Byddwch yn ennill dealltwriaeth eang o TGCh ac yn astudio meysydd yn fwy manwl megis rhwydweithiau cyfrifiadurol a chynhyrchu gwefan. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU neu'r cymhwyster Diploma Cyntaf Lefel 2.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **E-chwaraeon** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |

Bwriad y cwrs hwn yw darparu llwybr gyrfa i TG neu e-chwaraeon, gan roi sgiliau i fyfyrwyr a fydd yn eu galluogi i gael gyrfa fel dylunydd gemau, technegydd, ffrydiwr a chynhyrchydd fideo. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **TG, Meddalwedd a Thelathrebu** | **Lefel 2/3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **HND mewn Cyfrifiadura Cymhwysol**
- **Cymwysterau proffesiynol Lefel 4 ac uwch**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# Peirianneg

Peirianneg yw un o'r sectorau diwydiant sy'n tyfu gyflymaf yn y byd ac mae'r cyfleoedd mae'n eu cynnig yn ddiderfyn! Y diffiniad o beirianneg yw cymhwyso gwyddoniaeth a mathemateg i ddatrys problemau.

Mae cyfleoedd i fyfyrwyr sydd â meddylfryd academaidd yn ogystal â'r rhai sy'n fwy dawnus yn ymarferol y mae'n well ganddynt waith ymarferol.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

Ar ôl ysgol, gallwch ddewis disgyblaeth i'w hastudio yn y Coleg, ac arbenigo yn y ddisgyblaeth honno pan fyddwch yn symud ymlaen i addysg uwch neu brentisiaeth.

Yn gyffredinol, gellir rhannu peirianneg yn bedwar prif gategori. Gweler yr eiconau a ddefnyddir isod i ddarganfod pa gyrsiau yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer pob maes peirianneg.

### Mecanyddol

Dylunio ac astudio systemau ffisegol a mecanyddol megis offerynnau mecanyddol, injans, systemau ynysu dirgryniad, cywasgwyr, systemau arfau a rhannau ceir.

### Trydanol/Electronig

Dylunio ac astudio systemau trydanol a'u cymhwyso megis cylchedau trydanol, generaduron, moduron, systemau electromagnetig, systemau cyfrifiadurol, cylchedau integredig, microsglodion, dyfeisiau electronig a thelathrebu.

### Sifil

Dylunio seilwaith cyhoeddus megis ffyrdd, pontydd, argaeau, cyflenwad dŵr ac adeiladau.

### Cemegol

Astudio cymhwyso cemeg, ffiseg a bioleg mewn prosesau masnachol megis mireinio petrolewm, microffabrigo a chynhyrchu biomoleciwl.

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Adeiledig** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cymhwyster hwn yn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r amgylchedd adeiledig (e.e. adeiladu tai, peirianneg sifil, adeiladau preswyl a masnachol). **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd C mewn TGAU Mathemateg. | | | |
| **Electroneg** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu elfennau academaidd ac ymarferol electroneg. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Mathemateg a gradd C mewn Gwyddoniaeth. | | | |

**Creoedd staff a myfyrwyr Peirianneg Electronig atgofion ysbrydoledig ar daith i Stuttgart. Cawson nhw eu croesawu gan Werner Siemens Schule sy'n ymfalchïo yn eu cyfleusterau o'r radd flaenaf gan gynnwys labordy cydosod a chynhyrchu Diwydiant 4.0.**


Cafwyd cyfnewid diwylliannol bendigedig lle dysgodd y myfyrwyr am ieithoedd, traddodiadau lleol a bwyd ei gilydd. Yn ogystal, ymwelon nhw ag amgueddfeydd Porsche a Mercedez-Benz a datblygu eu sgiliau technegol fel PLC a sodro.




**Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydweithio â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Y Drindod) i ysbrydoli ac annog y genhedlaeth nesaf o beirianwyr chwaraeon moduro.**

Mae ein myfyrwyr yn mynychu'r brifysgol bob wythnos lle cânt eu haddysgu gan staff y Coleg a'r Drindod.

Mae'r Drindod hefyd wedi darparu gweithdy chwaraeon moduro, labordy cyfrifiaduron a dau gerbyd rasio sy'n gweithio'n llawn i ni, er mwyn i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau.



**Myfyrwyr Peirianneg Electronig yn ennill cystadlaethau Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a WorldSkills yn rheolaidd.**

Yng nghystadleuaeth Electroneg Ddiwydiannol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn ddiweddar, enillodd Tarran Spooner fedal Aur, Courtney Wallace fedal Arian, a James Wheland fedal Efydd, ac ar ben hynny cipiodd Connor Leahy a Joshua Lenthall fedalau Arian yn y gystadleuaeth Roboteg Ddiwydiannol! Cipiodd David O'Neill fedal Efydd hefyd yn y categori Electroneg Ddiwydiannol yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills y DU.



Mae'r llwyddiannau neilltuol hyn yn tynnu sylw at ymroddiad a thalent ein myfyrwyr a rhagoriaeth eu hyfforddiant."

## Galwedigaethol | Peirianneg Fecanyddol

Dyma'r ehangaf o'r disgyblaethau peirianneg.

Mae peirianwyr mecanyddol yn arbenigo mewn dylunio a chynhyrchu peiriannau, injans, systemau mecanyddol a thermol e.e. cydrannau cerbydau, cynhyrchion awyrennau, systemau arfau, tyrbinau, cywasgwyr, pympiau gwres, cyfnewidwyr gwres, offer chwaraeon, peiriannau ac offer meddygol, aelodau prosthetig a robotiaid.

**Llwybrau gyrfa**

Gweithio ym meysydd awyrofod, modurol, acwstig, amaethyddol, gweithgynhyrchu, cynhyrchu, morol, roboteg, biofeddygol, chwaraeon, ynni, CNC, weldio a ffabrigo, peirianneg defnyddiau a chynllunio gyda chymorth cyfrifiadur a mwy.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Peirianneg Fecanyddol Ymarferol (Perfformio Gweithrediadau Peirianneg)** | **Lefel 2** | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Bwriad y cwrs hwn yw rhoi gwybodaeth a sgiliau i chi mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys unedau ymarferol a fydd yn rhoi cyfle i chi ddod o hyd i'r meysydd sy'n gweddu orau i chi. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd D ar lefel TGAU a gradd C mewn Saesneg Iaith neu Fathemateg.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch - Chwaraeon Moduro** | **Lefel 3** Diploma | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bwriad y cwrs dwy flynedd hwn (cyfwerth â dwy Safon Uwch) yw rhoi cefndir technegol ac academaidd i dysgwyr. Byddwch yn astudio'r egwyddorion mwy cymhleth yn y maes peirianneg hwn wrth gyflawni gweithgareddau atgyweirio a diagnostig ar y cydrannau cysylltiedig. **Gofynion mynediad:** Cymwysterau TGAU priodol ar broffil gradd C gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith a Gwyddoniaeth. Byddwn yn ystyried dilyniant o gyrsiau modurol lefel ganolradd ochr yn ochr â chymwysterau TGAU priodol neu gymwysterau cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bwriad y cwrs hwn (cyfwerth â dwy Safon Uwch) yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ateb anghenion diwydiannau peirianneg fecanyddol a thrydanol. Gall dysgwyr ddewis astudio cwrs Safon Uwch perthnasol ychwanegol ochr yn ochr â'r rhaglen i wella eu mynediad i fynd i brifysgolion. **Gofynion mynediad:** O leiaf bum gradd TGAU, yn ddelfrydol gyda B mewn Mathemateg.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technolegau Peirianneg** | **Lefel 3** Diploma Estynedig Technegol | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |

Mae'r cwrs hwn (cyfwerth â thair Safon Uwch) yn canolbwyntio'n bennaf ar beirianneg fecanyddol. Mae'n gymhwyster a gydnabyddir gan ddiwydiant sy'n rhoi'r sgiliau academaidd ac ymarferol sydd eu hangen arnoch ar gyfer nifer o ddiwydiannau peirianneg modern. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg ganolradd a Gwyddoniaeth.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen Peirianneg Estynedig Cwrs Cyn-brentisiaeth** | **Lefel 3** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Mae'r rhaglen hybrid hon yn cynnwys cwrs academaidd Lefel 3, cwrs ymarferol NVQ Lefel 2 a'r sgiliau hanfodol i'ch paratoi ar gyfer prentisiaeth. Mae prentisiaethau yn cynnig cyfle euraidd i chi astudio tra byddwch yn y gweithle, sy'n golygu eich bod yn cael eich talu i barhau â'ch addysg, a chael profiad gwaith amhrisiadwy ar yr un pryd.

**Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith a phwnc Gwyddoniaeth. Rhaid i chi basio prawf gallu hefyd (bydd hwn yn asesu'ch gallu i berfformio tasgau penodol ac ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol).

## Galwedigaethol Peirianneg Drydanol/Electronig

Mae peirianwyr trydanol yn arbenigo yn y gwaith o ddylunio a chynhyrchu systemau a chydrannau trydanol ac electronig, e.e. cylchedau trydanol, cylchedau electronig, opteg ffibr, systemau cyfrifiadurol, telathrebu, offeryniaeth, rheolaethau, generaduron, moduron a dyfeisiau electromagnetig.

**Llwybrau gyrfa** Peirianneg electronig, microelectroneg, cyfathrebu, opteg ffibr, roboteg, peirianneg gyfrifiadurol, peirianneg optegol, peirianneg pŵer a mwy.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technolegau Peirianneg Electronig** ⚡ | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Ar y cwrs, byddwch yn archwilio'r datblygiadau diweddaraf ym maes peirianneg electronig. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd D neu uwch ar lefel TGAU.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technegydd Peirianneg Electronig Rhaglen Beirianneg Fanylach** ⚡ | **Lefel 3** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Ar y cwrs blwyddyn hwn (cyfwerth ag un Safon Uwch a hanner) byddwch yn archwilio byd peirianneg electronig gan gynnwys dadansoddi a chreu atebion, gyda phartneriaid diwydiannol, i broblemau go iawn. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith neu gymhwyster electroneg ar Lefel 2.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Technegydd Peirianneg Electronig Uwch** ⚡ | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |

Nod y cwrs hwn (cyfwerth â dwy Safon Uwch) yw eich helpu i gael lle prifysgol mewn disgyblaeth technoleg ddigidol neu electroneg. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd A-C ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith neu gymhwyster electroneg Lefel 2.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Perfformio Gweithrediadau Peirianneg** | **Lefel 2/3** |
| **Technolegau Peirianneg** | **Lefel 2** |
| **Peirianneg/Electroneg** | **Lefel 3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **HNC/HND mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig**
- **HNC/HND mewn Peirianneg Fecanyddol**
- **HNC mewn Rheolaeth Adeiladu**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# Gwallt, Harddwch a Holisteg

Mae'r diwydiant yn dibynnu ar bobl greadigol sydd â sgiliau cyfathrebu cryf a pharodrwydd i ddysgu.

Gallai astudio gyda ni arwain at ddyfodol yn gweithio mewn salon, rhedeg eich sba eich hun neu deithio'n rhyngwladol ar longau mordeithio.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Triniwr gwallt/barbwr
- Therapydd harddwch
- Technegydd ewinedd
- Colurwr
- Rhedeg eich busnes eich hun
- Gwallt, colur ac effeithiau arbennig teledu, ffilm a theatr





**Mae myfyrwyr effeithiau arbennig theatr, gwallt a cholur y cyfryngau y Coleg wedi gadael eu marc eleni trwy eu prosiectau trawsnewidiol.**

O greu cymeriadau ar gyfer y cynhyrchiad theatr 'Elf', arddangosiadau yng Nghonfensiwn Comics a Gemau Cyfrifiadurol Abertawe, i 'Syrcas Arswyd' y Gwobrau Myfyrwyr Blynyddol.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Therapi Harddwch** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i ddarparu gofal croen a cholur sylfaenol yn ogystal â thriniaethau dwylo a thraed sylfaenol. **Gofynion mynediad:** Gradd D mewn TGAU Mathemateg a Saesneg Iaith neu gynhwyster Lefel 1 cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru. | | | |
| **Technegau Arbenigwr Harddwch** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu'ch sgiliau ymarferol wrth weithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol. **Gofynion mynediad:** Gradd C mewn TGAU Mathemateg, Saesneg Iaith ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru. Bydd rhaid i chi gwblhau asesiad cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd a dod am gyfweliad. | | | |
| **Triniaethau Therapi Harddwch** | **Lefel 3** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu'ch sgiliau ymarferol mewn amgylchedd masnachol prysur. Byddwch hefyd yn gwneud profiad gwaith bob wythnos. **Gofynion mynediad:** Tair gradd C neu uwch o leiaf ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru. Cymhwyster cysylltiedig Lefel 2. | | | |
| **Astudiaethau Gwallt a Cholur y Cyfryngau** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Yn addas i'r rhai sy'n ceisio gyrfa fel colurwr y cyfryngau. **Gofynion mynediad:** O leiaf dair gradd D neu uwch ar lefel TGAU. | | | |
| **Colur ar gyfer Theatr, Effeithiau Arbennig, Gwallt a'r Cyfryngau** | **Lefel 3** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu gwasanaethau gwallt a cholur yn niwydiannau'r cyfryngau, theatr, y celfyddydau perfformio, ffasiwn a ffotograffiaeth i lefel uchel. **Gofynion mynediad:** O leiaf dair gradd C neu uwch ar lefel TGAU. | | | |
| **Trin Gwallt** | **Lefel 1** Tystysgrif | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt trwy chwythsychu a chynorthwyo gwasanaethau lliwio gwallt. **Gofynion mynediad:** Yn ddelfrydol, gradd D mewn TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg neu Lefel 1 mewn cymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru. | | | |
| **Trin Gwallt** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol. **Gofynion mynediad:** Yn ddelfrydol, gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg neu gymhwyster Lefel 2 cyfathrebu a chymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru. | | | |
| **Trin Gwallt** | **Lefel 3** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Byddwch yn datblygu'ch sgiliau trin gwallt a gweithio ar gleientiaid mewn amgylchedd salon masnachol. **Gofynion mynediad:** Tair gradd C neu uwch o leiaf ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg ac, yn ddelfrydol, Gwyddoniaeth neu gymhwyster cyfathrebu a chymhwyso rhif cyfwerth Sgiliau Hanfodol Cymru. Cymhwyster trin gwallt neu gymhwyster cysylltiedig ar Lefel 2. Rhaid bod yn uchel eich cymhelliant â diddordeb angerddol yn y diwydiant. | | | |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Tystysgrif Lefel 3 mewn Therapi Tylino Chwaraeon** (rhan-amser)
- **Tystysgrif Lefel 4 mewn Therapi Tylino Chwaraeon** (rhan-amser)

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# **Iechyd, Gofal Cymdeithasol** a **Gofal Plant**

Gallai gyrfa lewyrchus fod yn aros amdanoch ym meysydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Yn Ne-orllewin Cymru, mae'r sector Iechyd a Gofal yn darparu llawer o swyddi, gan gyfrif am dros 17% o'r holl gyflogaeth*.

Mae'r sector gofal plant hefyd yn tyfu, a disgwylir iddo gynyddu 3.6% rhwng 2023 a 2030 yng Nghymru*. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o alw am weithwyr proffesiynol medrus yn y meysydd hyn. **Gwybodaeth am y farchnad lafur*

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Ymarferydd gofal dydd
- Ymarferydd/Nyrs meithrin
- Gwarchodwr plant/ nani
- Gweithiwr chwarae
- Gwaith cymdeithasol
- Therapi galwedigaethol
- Nyrsio
- Bydwreigiaeth
- Radiograffeg
- Troseddeg
- Iechyd yr amgylchedd
- Gwasanaeth prawf
- Gwaith ieuenctid
- Cwnsela
- Therapi chwarae
- Anghenion dysgu ychwanegol



Enillodd y myfyriwr gofal plant, Lauren Maddick, fedal aur yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru, ochr yn ochr â Miles Thornton a enillodd efydd!

## Cyrsiau Safon Uwch

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn edrych ar ddatblygiad a gofal pobl. Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a lles pobl. Byddwch hefyd yn ennill dealltwriaeth fanwl o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. **Gofynion mynediad:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gofal Plant** | **Lefel 1** Diploma Rhagarweiniol | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Bwriad y cwrs yw datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. **Gofynion mynediad:** Rhai cymwysterau ar Lefel Mynediad 3 neu radd E mewn TGAU Saesneg Iaith a gradd D mewn pwnc arall.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer a Theori** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Mae'r cwrs yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith. **Gofynion mynediad:** Dwy radd C ar lefel TGAU ac o leiaf radd D mewn Saesneg Iaith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant - Ymarfer a Theori** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn ychwanegu at yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith. **Gofynion mynediad:** Bum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **Lefel 1** Diploma Rhagarweiniol | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Bwriad y cwrs hun yw datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r sector. **Gofynion mynediad:** Un radd C ar lefel TGAU.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Oedolion, Plant a Phobl Ifanc** | **Lefel 2** | **Un flwyddyn** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Bwriad y cwrs hwn yw datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r sector. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith hefyd. **Gofynion mynediad:** Tair gradd C ar lefel TGAU (Saesneg Iaith yn ddelfrydol).

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Egwyddorion a Chyd-destunau** | **Lefel 3** | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn archwilio amrywiaeth o faterion cyfredol ac amserol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cwrs hwn yn cynnwys lleoliad gwaith hefyd. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith a Gwyddoniaeth.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion** | **Lefel 3** |
| **Gofal Plant** | **Lefel 2/3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Datblygiad Plentyndod**
- **Gradd Sylfaen mewn Addysg, Dysgu a Datblygiad**
- **BA (Anrh) mewn Addysg, Dysgu a Datblygiad**
- **Prentisiaeth Uwch mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Lefel 5)**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.





Mae gan fyfyrwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar y ddau gampws fynediad i amrywiaeth o offer arloesol sy'n darparu cyfleoedd dysgu gwych.

Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys offer efelychu claf, a phabell synhwyraidd, a ddefnyddir i dawelu plant sydd wedi'u gorysgogi neu'n ddigalon a'u helpu i ddatblygu sgiliau bywyd allweddol.

Yn ddiweddar, bu ein myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau realiti rhithwir i ennill dealltwriaeth o effeithiau dementia, profiad diddorol a ddarparwyd gan Gofalwn Cymru.








# Sgiliau Garddwriaeth

Mae tirlunio yn sector sy'n tyfu'n gyflym yn y DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o blanhigion, garddio, tirlunio a'r amgylchedd wedi cynyddu'n fawr. Mae hyn yn helpu i wneud garddwriaeth a thirlunio yn un o'r sectorau cyflogaeth mwyaf yn y DU.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Garddwr
- Gweithiwr canolfan garddio/planhigion
- Technegydd meithrinfa
- Garddwr treftadaeth
- Ceidwad parc
- Gweithiwr cynnal a chadw tiroedd/meysydd chwaraeon



## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Adeiladu Tirlun a Garddio** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Paratowch i balu i fyd cyffrous tirlunio! Anelir y cwrs hwn at y rhai sy'n mwynhau bod y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chael eu dwylo'n frwnt. Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau bywyd go iawn ar y safle ac oddi arno e.e. Cwrs Golff Pennard, Coedwig Penllergaer, Parc Singleton. **Gofynion mynediad:** Nid oes angen cymwysterau ffurfiol. Mae angen lefel sylfaenol o ffitrwydd i ddilyn y cwrs hwn.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys amrywiaeth mawr iawn o bynciau megis adeiladu lle palmantog, adeiladu waliau a phileri, a chynnal pwll. **Gofynion mynediad:** Un radd C ar lefel TGAU neu gymhwyster Lefel 1 cysylltiedig.

## Sicrhau eich dyfodol

Ennill cyflogaeth yn y diwydiant neu ddechrau'ch busnes eich hun.



# Y Dyniaethau ac Ieithoedd

O'r Ymerodraeth Rufeinig i faterion cyfoes a chrefydd, mae'r cyrsiau hyn yn ddelfrydol i'r myfyrwyr sydd â diddordeb mewn materion yn y gorffennol a'r presennol.

Astudiwch Saesneg a bydd y byd i gyd o'ch blaen! Mae'n ddewis ardderchog i fyfyrwyr sydd am astudio'r celfyddydau, y dyniaethau, ieithoedd neu fusnes yn y brifysgol.

Gall cymhwyster mewn ieithoedd arwain at amrywiaeth eang o yrfaoedd megis cyfieithu, rheoli gwesty, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus neu newyddiaduraeth.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Newyddiadurwr
- Cyfieithydd
- Athro/Athrawes
- Hanesydd
- Gwleidydd
- Cyfreithiwr
- Cadwraethwr
- Troseddegwr

**Yn ddiweddar, aeth ein myfyrwyr Safon UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth i Lundain lle gwelon nhw ambell i olygfa enwog iawn.**

Roedd yn ddiwrnod llawn gweithgareddau. Gan gychwyn o Abertawe am 5.30am, ymwelodd y myfyrwyr â Goruchaf Lys y DU a mwynhau taith o gwmpas Whitehall.





Cawson nhw eu tretio hefyd i daith o gwmpas y Senedd gan gynnwys Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Cafwyd gweithdy ar wneud cyfreithiau ar ddiwedd y daith, wedi'i ddilyn gan sesiwn holi ac ateb gydag AS Gŵyr Tonia Antoniazzi.

Ond uchafbwynt y dydd mae'n debyg oedd ymweliad â Stryd Downing, gyda chyfle ar gyfer lluniau y tu allan i ddrws ffrynt enwog iawn Rhif 10. Cafodd hyn ei drefnu'n gyfrinachol gan yr Arweinydd Cwricwlwm Scott Evans ac roedd yn syndod llwyr i'r staff a'r myfyrwyr.

# Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Hanes yr Hen Fyd** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn astudio hanes a diwylliant Hen Roeg a Rhufain gan gynnwys eu systemau llywodraethu, strwythur eu cymdeithas, eu gwaith adeiladu a'u harferion crefyddol. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith neu Hanes.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gwareiddiad Clasurol** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn astudio diwylliannau hen Roeg a Rhufain yn bennaf trwy eu celf a'u llenyddiaeth. Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn darganfod bod cysylltiad cryf rhwng eu celf a'u llenyddiaeth â'u hunaniaeth ddiwylliannol a'u bod yn seiliedig. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Troseddeg** | **Lefel 3** Diploma | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bwriedir i chi ddilyn y cwrs hwn ochr yn ochr â chyrsiau Safon Uwch. Bwriad y cwrs hwn yw eich cyflwyno i theori a chymhwyso sgiliau troseddeg, h.y. newid ymwybyddiaeth o drosedd a damcaniaethau troseddegol. **Gofynion mynediad:** Gradd B o leiaf mewn TGAU Saesneg Iaith.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Saesneg Iaith** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn mabwysiadu ymagwedd fforensig at ddadansoddi iaith lafar, print ac iaith ar-lein. Byddwch yn datblygu pecyn cymorth dadansoddol o derminoleg ramadegol a damcaniaethau ieithyddol a fydd yn eich galluogi i ddadansoddi unrhyw destun. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Saesneg Iaith a Llenyddiaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn rhoi modd i chi astudio llenyddiaeth trwy iaith. Cewch eich cyflwyno i'r ffactorau cyd-destunol diddorol sy'n llywio gwaith ysgrifennu a gwahanol ddehongliadau o destunau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Saesneg Llenyddiaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd y pwnc hwn yn eich annog i astudio gwahanol destunau yn fanylach a gwneud cysylltiadau rhyngddynt. Cewch eich cyflwyno i rai o'r ffactorau cyd-destunol diddorol sydd wedi llywio gwaith ysgrifennu a gwahanol ddehongliadau o destunau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Ffrangeg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd y cwrs yn adeiladu ar y sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu sydd gennych eisoes. Trwy astudio themâu megis bod yn berson ifanc yn y byd Ffrangeg ei iaith, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r ffordd o fyw. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Argymhellir gradd B mewn TGAU Ffrangeg a Saesneg Iaith.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Daearyddiaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Yn y byd modern, wedi'i globaleiddio sy'n newid yn barhaus, mae astudio daearyddiaeth yn fwy pwysig nag erioed oherwydd mae'n ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd C mewn TGAU Daearyddiaeth, ond bydd myfyrwyr hebddi yn cael eu hystyried ar sail eu portffolio TGAU cyffredinol.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn berffaith i'r rhai sydd â diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes, sut mae'r wlad yn cael ei llywodraethu, gwahanol systemau gwleidyddol a sut maent yn gweithio. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Mae gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith, a naill ai gradd B mewn TGAU Saesneg Llenyddiaeth neu bwnc arall cysylltiedig â'r Dyniaethau.

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Hanes** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Hanes yw ein dehongliad o'r gorffennol ac mae'n ymwneud â llawer mwy na ffeithiau a dyddiadau yn unig – mae'n cynnwys y gallu i ymchwilio, dadansoddi, dadlau, defnyddio ffynonellau hanesyddol ac ysgrifennu'n dda. Mae hanes yn addysgu cysyniadau – achos a chanlyniad, parhad a newid. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Hanes (neu radd B mewn Saesneg Iaith os na astudiwyd Hanes).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Gyfraith** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn eich annog i ddatblygu diddordeb a dealltwriaeth o'r system gyfreithiol gyfredol yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn rhoi modd i chi feddwl yn feirniadol am rôl y gyfraith mewn cymdeithas. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Astudiaethau Crefyddol - Athroniaeth a Moeseg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Nid yw'n gwneud gwahaniaeth a ydych yn theistiad, yn anffyddiwr neu'n agnostig, mae Astudiaethau Crefyddol yn gwrs diddorol a bywiog gyda digon o gyfleoedd ar gyfer dadl grefyddol, foesegol ac athronyddol sy'n ysgogi'r meddwl. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn ddymunol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sbaeneg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd y cwrs yn adeiladu ar eich sgiliau presennol o siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Trwy astudio themâu megis bod yn berson ifanc yn y byd Sbaeneg ei iaith, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r diwylliant a'r ffordd o fyw. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Argymhellir gradd B mewn TGAU Sbaeneg a Saesneg Iaith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymraeg - Ail Iaith** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd cyfle gennych i ddefnyddio unrhyw gyfuniad o sgiliau iaith - darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu. Byddwch yn defnyddio'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yn yr adran a chael cyfle i astudio ffilmiau, rhaglenni teledu, storïau, dramâu a cherddi Cymraeg. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd C mewn TGAU Cymraeg (cwrs llawn, ail iaith).

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



Llongyfarchiadau enfawr i'r myfyrwyr Safon Uwch Saesneg Rachel Smith a Carys King sydd wedi ennill gwobrau yng nghystadleuaeth ED Review Dylan Thomas 2023



# Mathemateg, Gwyddoniaeth a Gwyddor Gymdeithasol

Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol yn ogystal â darparu llwyfan ardderchog ar gyfer astudiaethau academaidd pellach.

Gall gwyddoniaeth fod yn ddefnyddiol mewn llawer o sectorau gwahanol megis peirianneg, gweithgynhyrchu ac ymchwil, yn ogystal â meddygaeth a gwyddor yr amgylchedd.

Os oes gennych ddiddordeb yn y byd o'ch cwmpas, boed hynny yr amgylchedd naturiol neu ryngweithiau dynol, bydd y cyrsiau hyn yn berffaith i chi!

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

Mae'r Coleg wedi ennill statws Aelod Cyswllt gan y Gymdeithas Frenhinol, academi wyddoniaeth genedlaethol y DU.

ASSOCIATE SCHOOLS AND COLLEGES OF
THE ROYAL SOCIETY

## Llwybrau gyrfa

- Meddyg/parafeddyg
- Deintydd
- Milfeddyg
- Gweithiwr cymdeithasol
- Ymchwilydd
- Peiriannydd
- Seicolegydd
- Ffisegydd
- Gwyddonydd fforensig
- Peiriannydd genetig
- Technegydd labordy

**Ailystyried gyrfa diolch i Gemeg!**

Roedd Ruby Millinship yn bwriadu dilyn gyrfa ym maes dylunio nes iddi ddechrau astudio Safon Uwch Cemeg yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.




"Penderfynais i astudio cemeg i roi cynnig arno a dweud y gwir, roedd y pwnc wedi ennyn fy chwilfrydedd ar lefel TGAU ac roeddwn i eisiau gwybod rhagor," meddai Ruby. "O fewn y pythefnos cyntaf, roeddwn i wedi darganfod pwnc a ddaeth yn naturiol i mi. Roedd dysgu cemeg yn teimlo fel dysgu pwnc oedd eisoes yn fy meddwl; roedd e'n gwneud synnwyr. Cemeg organig daniodd fy niddordeb gynta' ac yn fuan roeddwn i eisiau gwybod popeth amdani."

I Ruby, y peth gorau am astudio pynciau STEM yw eu bod nhw'n rhoi hyder i chi holi ynghylch pethau – maen nhw'n gwneud i chi eisiau 'gwybod pam.'

Erbyn hyn mae hi'n bwriadu astudio cemeg ar lefel uwch ac wedi cael cynnig lleoedd yn Warwig, Bryste a Chaerfaddon. Mae hi hefyd wedi cael cynnig gan Brifysgol Caerefrog i astudio cemeg, egwyddorion gwyrdd a phrosesau cynaliadwy.

# Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Seicoleg Gymhwysol** | **Lefel 3** Tystysgrif Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bwriedir i chi ddilyn y cwrs hwn ochr yn ochr â chyrsiau Safon Uwch. Drwy astudio senarios bywyd go iawn a chynnal eich prosiect ymchwil eich hun, byddwch yn datblygu dealltwriaeth ddofn o'r ffactorau sy'n llywio ymddygiad dynol. Mae'r cwrs hwn yn cynnig dysgu seiliedig ar gymwysiadau ymarferol seicoleg a byddai'n addas i'r rhai sy'n well ganddynt gwblhau aseiniadau a asesir ochr yn ochr ag arholiadau traddodiadol. **Gofynion mynediad:** Gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bioleg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn cymwysiadau ymarferol theori biolegol. Ar ôl dysgu'r egwyddorion sylfaenol, byddwch yn symud ymlaen i astudiaethau mwy manwl ffisioleg, systemau cellog, geneteg, esblygiad ac atgenhedlu. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg (haen uwch) a Gwyddoniaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cemeg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd myfyrwyr yn astudio cysyniadau sylfaenol cemeg, gan gynnwys adeiledd yr atom, bondio, cineteg gemegol, sbectrosgopeg a chemeg organig; gan ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o egwyddorion cemegol. Mae arbrofion ymarferol yn rhan annatod o'r cwrs. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg (haen uwch) a Gwyddoniaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Daeareg** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio'r peryglon naturiol i fodau dynol megis daeargrynfeydd, llosgfynyddoedd, tswnamïau a thirlithriadau a sut y gellir lleihau'r risgiau hyn trwy ragfynegi, atal neu reoli peryglon. Byddwch hefyd yn dysgu am ddarganfod ac echdynnu adnoddau hanfodol o'r ddaear megis olew, glo, dŵr a metelau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd C mewn TGAU Gwyddoniaeth a Mathemateg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mathemateg Bellach** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn opsiwn dim ond os ydych chi'n ei gyfuno â Safon Uwch Mathemateg. Ni ellir dilyn y cwrs ar ei ben ei hun. Nod y cwrs yw ehangu a dyfnhau'r wybodaeth a'r sgiliau mathemategol a ddatblygwyd wrth astudio Safon Uwch Mathemateg. Mae meysydd astudio yn cynnwys mathemateg bur bellach, mecaneg bellach ac ystadegau pellach. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd A* mewn TGAU Mathemateg yn ofynnol (bydd gradd A hefyd yn cael ei hystyried).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mathemateg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sgiliau a thechnegau sylfaenol mathemateg. Mae gwaith cartref ac ymarferion trwyadl sy'n cyfnerthu'r technegau a'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu yn y dosbarth. Mae meysydd astudio yn cynnwys mathemateg bur, mecaneg ac ystadegau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd A mewn TGAU Mathemateg o'r haen uwch (bydd gradd B o'r haen uwch yn cael ei hystyried).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwyddor Feddygol** | **Lefel 3** Diploma | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bwriedir i chi ddilyn y cwrs hwn ochr yn ochr â chyrsiau Safon Uwch. Fel rhan o'r cwrs hwn, byddwch yn astudio: anatomeg a ffisioleg ddynol; technegau mesur ffisiolegol; meddyginiaethau a thriniaethau clefydau. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith a gradd C mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffiseg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd myfyrwyr yn astudio egwyddorion sylfaenol ffiseg, gan gynnwys mecaneg, electromagneteg, tonnau, a ffiseg ronynnol, yn ogystal ag astroffiseg; gan ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r deddfau sy'n rheoli'r byd ffisegol. Mae gwaith ymarferol yn elfen hanfodol o'r cwrs. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg (haen uwch) a Gwyddoniaeth.

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Seicoleg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Archwiliwch ymddygiad unigolion a dysgu sut mae seicolegwyr yn gwneud eu gwaith ymchwil. Ystyriwch ymddygiadau megis sgitsoffrenia, straen ac ymddygiad troseddwyr yn ogystal â sut y gellir eu newid. Byddwch hefyd yn trafod y prif ddadleuon ym maes seicoleg. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn Saesneg Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth (bioleg yn ddelfrydol).

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cymdeithaseg** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae gan gymdeithasegwyr ddiddordeb yn y rheswm pam mae cymdeithas yn gweithio fel y mae, gan ymchwilio i ba raddau y gall ymddygiad a chyfleoedd gael eu llywio gan ddosbarth cymdeithasol, oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle cyffrous i gael dealltwriaeth ddofn o'r byd cymdeithasol h.y. diwylliant, cymdeithasoli, hunaniaeth, teuluoedd a chartrefi, addysg, trosedd, a gwyriad ac anghydraddoldeb. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU  Saesneg Iaith, Saesneg Llenyddiaeth a Mathmateg. Os na astudiwyd Saesneg Llenyddiaeth bydd gradd B mewn Hanes neu Astudiaethau Crefyddol yn cael ei hystyried.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gwyddoniaeth Gymhwysol** | **Lefel 2** Diploma Cyntaf | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Bydd y cwrs yn rhoi modd i ddysgwyr ennill gwybodaeth mewn gwyddorau naturiol a chymdeithasol i.e. cemeg, ynni, bioleg a'r corff byw. **Gofynion mynediad:** Yn ddelfrydol, pedair gradd D ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith neu Astudiaethau Galwedigaethol Lefel 1 gyda phroffil rhagoriaeth/teilyngdod.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gwyddoniaeth Gymhwysol – Gwyddor Ddadansoddol neu Fforensig neu Wyddor Fiofeddygol** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |

Addysgir y cwrs hwn gan ddarlithwyr arbenigol mewn labordai ac ystafelloedd dosbarth llawn adnoddau.Yn yr ail flwyddyn astudio, bydd dysgwyr yn dilyn y llwybr Gwyddor Ddadansoddol a Fforensig neu'r llwybr Gwyddor Fiofeddygol, yn dibynnu ar y llwybr dilyniant o'u dewis. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith, Mathemateg ac mae Gwyddoniaeth yn ddymunol hefyd. Neu Wyddoniaeth Gymhwysol (Diploma Cyntaf Lefel 2) gyda phroffil rhagoriaeth/teilyngdod.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Prentisiaeth Technegwyr Labordy a Gwyddoniaeth** | **Lefel 3/4** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **HNC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.





# Cerbydau Modur

Yn cyfuno dylunio, gweithgynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi, y diwydiant moduro yw'r sector cyflogaeth peirianneg mwyaf yn y DU.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Mecanig
- Technegydd cerbydau
- Ffitiwr
- Gwasanaeth torri i lawr

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Gynnal a Chadw Systemau Cerbydau** | **Lefel 1** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio egwyddorion sylfaenol systemau mecanyddol a thrydanol a ddefnyddir mewn technoleg cerbydau modur. Byddwch yn cael blas ar yrfa yn y diwydiant gwasanaethau ac atgyweirio cerbydau modur. **Gofynion mynediad:** Yn amodol ar gyfweliad.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau** | **Lefel 1/2** Diploma | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Bydd y cwrs hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r systemau trydanol a mecanyddol a ddefnyddir ar gerbyd modur o ran gweithredu, dylunio a chynnal a chadw. **Gofynion mynediad:** Nifer o raddau D ar lefel TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith. Yn amodol ar gyfweliad.

## Prentisiaethau

i gael rhagor o wybodaeth gweler tudalen 18

| Llwybr | Cymhwyster |
|---|---|
| **Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau** | **Lefel 2/3** |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau**

Neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# Y Celfyddydau Perfformio, Cynhyrchu a Cherddoriaeth

Mae gan y Coleg gysylltiadau ardderchog â cholegau arbenigol. Rydym yn ganolfan clyweliadau rhanbarthol ar gyfer LAMDA, Academi Mountview a Theatr Genedlaethol Ieuenctid.

Adran gerddoriaeth y Coleg yw'r un fwyaf yng Nghymru ac rydym yn rhedeg amrywiaeth o *ensembles* gan gynnwys côr, cerddorfa a band jazz.

Ar Gampws Llwyn y Bryn mae dwy stiwdio recordio llawn cyfarpar, nifer o ystafelloedd ymarfer cerddoriaeth a lle perfformio ar lwyfan.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Perfformiwr (actor, dawnsiwr, canwr)
- Cerddor proffesiynol
- Coreograffydd
- Cyfansoddwr
- Athro/Athrawes
- Cynhyrchydd
- Rheolwr llwyfan
- Cynllunydd gwisgoedd
- Peiriannydd sain

Mae ein myfyrwyr Cynhyrchu Theatr a Digwyddiadau Byw talentog yn cael cyfleoedd i weithio ar ddigwyddiadau Coleg fel y Gwobrau Blynyddol yn Stadiwm Swansea.com, lle maen nhw'n darparu'r set, y goleuadau a'r sain.








gcs.ac.uk/cy/courses/performing-arts-production-music

## Cyrsiau Safon Uwch

**Gofynion mynediad safonol:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith. Mae Mathemateg yn ddymunol hefyd. Bydd unrhyw ofynion mynediad ychwanegol yn cael eu rhestru gyda manylion y cwrs.

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Dawns** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Trwy ddosbarthiadau a gweithdai technegau byddwch yn archwilio amrywiaeth o arddulliau dawns, gan gynnwys cyfoes, bale, a jazz ac ati. Gyda phwyslais ar goreograffi a pherfformio, byddwch yn gwella'ch sgiliau celfyddydol a magu hyder wrth fynegi'ch llais creadigol eich hun. | | | |
| **Drama** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Bwriedir y cwrs hwn i fyfyrwyr sydd â diddordeb angerddol mewn actio a'r theatr. Mae'n cynnwys elfennau ysgrifenedig ac ymarferol a fydd yn eich annog i ddatblygu dealltwriaeth ardderchog o berfformio theatr. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B mewn TGAU Saesneg Iaith. Mae TGAU Drama yn ddelfrydol hefyd, ond mae unrhyw brofiad o berfformio yn fuddiol. | | | |
| **Cerddoriaeth** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Bydd y cwrs hwn yn eich ysbrydoli ac yn datblygu eich hoffter o gerddoriaeth, gan roi dealltwriaeth gynhwysfawr i chi o'i theori, ei hanes, a'i helfennau ymarferol. Byddwch yn archwilio arddulliau cerddorol amrywiol, dadansoddi cyfansoddiadau, ac ennill hyfedredd mewn perfformio a chyfansoddi. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Gradd B neu uwch mewn TGAU Cerddoriaeth neu Radd 5 Theori (ABRSM). Mae'r gallu i ddarllen nodiant ar y cwrs hwn yn hanfodol. | | | |
| **Technoleg Cerdd** (Darpariaeth linol – gweler tudalen 15) | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Byddwch yn astudio technegau caledwedd a meddalwedd cynhyrchu ac yn gallu defnyddio amrywiaeth o gyfleusterau stiwdio recordio a golygu. Cewch eich annog hefyd i archwilio'ch cerddgarwch a chreu deunyddiau gwreiddiol gan ddefnyddio technoleg. **Gofynion mynediad ychwanegol:** Y gallu i chwarae offeryn neu ddangos profiad perthnasol o waith cynhyrchu. Nid yw TGAU Cerddoriaeth yn hanfodol, ond mae gwybodaeth gyffredinol o gerddoriaeth yn fanteisiol. | | | |



Roedd ein cyngerdd yr haf yn gyfle gwych i gysylltu â'n cymuned leol a dangos talentau ein myfyrwyr anhygoel Safon Uwch Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerdd.

Dyma rai sioeau y mae ein myfyrwyr wedi ymwneud â nhw eleni.



## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Llwyn y Bryn** |
| Mae'r cwrs yn datblygu'ch gwybodaeth a'ch sgiliau ymarferol mewn perfformio a chynhyrchu cerddoriaeth. **Gofynion mynediad:** Pedair gradd D ar lefel TGAU neu gymwysterau cyfwerth. Yn amodol ar gyfweliad a chlyweliad, rhaid eich bod yn canu neu yn chwarae offeryn. | | | |
| **Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Llwyn y Bryn** |
| Bwriad y cwrs hwn yw bod mor ymarferol ag sy'n bosibl gan roi sylfaen i chi ym mhob agwedd ar berfformio a chynhyrchu cerddoriaeth. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU neu gymwysterau cyfwerth, er enghraifft, Lefel 2 mewn Cerddoriaeth. Yn amodol ar gyfweliad a chlyweliad, rhaid eich bod yn canu neu yn chwarae offeryn. | | | |
| **Cynhyrchu Theatr a Digwyddiadau Byw** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Bydd y cwrs hwn yn darparu hyfforddiant realistig dwys ym mhob agwedd ar gynhyrchu ar gyfer y theatr. Byddwch yn dilyn cwrs generig sy'n edrych ar oleuo, sain, rheoli llwyfan a dylunio. Mae meysydd astudio hefyd yn cynnwys gweinyddu'r celfyddydau ac astudiaeth ddamcaniaethol o'r celfyddydau perfformio. **Gofynion mynediad:** Bydd angen profiad mewn gwaith cefn llwyfan ac argymhellir, yn gryf eich bod yn aelod o grŵp theatr ieuenctid. | | | |
| **Y Celfyddydau Perfformio** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Gorseinon** |
| Bwriedir y cwrs hwn i ddarpar berfformwyr sydd â diddordeb brwd yn y celfyddydau creadigol. Byddwch yn astudio amrywiaeth o feysydd ar draws disgyblaethau actio, dawns, canu, byrfyfyrio, symudiad, a chynhyrchu theatr. **Gofynion mynediad:** Gradd D mewn unrhyw bwnc TGAU neu broffil Teiymgdod Diploma Lefel 1. Rhaid bod yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio. Byddai profiad o berfformio mewn dawns, drama neu gerddoriaeth o fantais. | | | |
| **Y Celfyddydau Perfformio** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |
| Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth â thri chwrs Safon Uwch. Mae amrywiaeth o feysydd astudio ar draws yr holl ddisgyblaethau gan gynnwys techneg actio, theatr glasurol, techneg canu, symudiad cyfoes, a pherfformio theatr gerdd. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith, neu radd Teilyngdod Diploma Lefel 2 y Celfyddydau Perfformio. Rhaid bod gan fyfyrwyr ddiddordeb brwd yn y celfyddydau perfformio, yn ddelfrydol gyda phrofiad o berfformio. | | | |



Myfyrwyr Perfformio Cerddoriaeth yn y digwyddiad Dyfodol Creadigol.

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Diploma Proffesiynol Lefel 4 mewn Perfformio**
  Ar y cwrs hwn gallwch ddewis arbenigo mewn actio neu theatr gerdd.

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.




# Gwasanaethau Cyhoeddus ac Amddiffynnol

Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ddysgu rhagor am y gwahanol wasanaethau. Cewch gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau fel gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau antur, teithiau preswyl a siaradwyr gwadd.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau **gyrfa**

- Lluoedd arfog
- Gwasanaeth tân
- Heddlu a gwasanaethau prawf
- Ditectif
- Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol
- Swyddog cymorth cymunedol yr heddlu

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Paratoi ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch neu Gorseinon** |
| Bydd y cwrs blwyddyn hwn yn eich ysbrydoli i wella sgiliau cyflogadwyedd cyffredinol a sgiliau. **Gofynion mynediad:** Pum gradd D neu uwch ar lefel TGAU. Gradd D/E o leiaf mewn Saesneg Iaith a Mathemateg. | | | |
| **Gwasanaethau Amddiffynnol mewn Lifrai** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |
| Bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus megis yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r lluoedd arfog. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU Gradd C o leiaf mewn TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg. Neu Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus (Tystysgrif Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod. | | | |

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol**
- **Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon**

Fel arall, gallech chi symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# Chwaraeon

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau chwaraeon cyffredinol yn ogystal â dewisiadau i'r rhai sydd am ganolbwyntio ar bêl-droed, rygbi neu wyddor ymarfer corff.

Enillwch ddealltwriaeth drylwyr o'r gamp o dy ddewis gan gynnwys egwyddorion, technegau a strategaethau wrth gynnal y ffitrwydd a'r iechyd gorau. Trowch eich hoffter o chwaraeon yn yrfa lewyrchus!

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

Cadwch lygad ar y wefan oherwydd gallai'r cwricwlwm newid ar gyfer 2024/25

## Llwybrau **gyrfa**

- Hyfforddwr a swyddog chwaraeon
- Hyfforddwr ffitrwydd
- Cynorthwyydd neu reolwr canolfan hamdden/ffitrwydd
- Hyforddwr personol
- Addysgu




Fe wnaeth myfyrwyr Datblygu a Rheoli Chwaraeon a Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed fwynhau taith ysblennydd i glwb pêl-droed S.L. Benfica ym Mhortiwgal. Cawson nhw wybodaeth wych gan yr hyfforddwyr am TDev, strategaethau maeth, arferion hyfforddi a model datblygu ieuenctid.



Cafodd ein chwaraewyr Academi Pro:Direct y cyfle anhygoel i groesawu dau westai chwedlonol yn ddiweddar – yr un ac unig Lee Trundle a'r talentog Ben Cabango!

Fel cyn-sêr Uwch Gynghrair Cymru, y bydd rhai o'n chwaraewyr yn symud ymlaen iddi, roedd yr eiconau pêl-droed hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth amhrisiadwy.

PRO:DIRECT ACADEMY

## Cyrsiau Safon Uwch

| Pwnc | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Addysg Gorfforol** | **Safon Uwch** | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth eang o amryw o gysyniadau gan gynnwys sut mae cyflyrau ffisiolegol a seicolegol yn effeithio ar berfformiad, rôl technoleg mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon a sut i ddadansoddi a gwerthuso i wella perfformiad. **Gofynion mynediad:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg Iaith a gradd B mewn TGAU Gwyddoniaeth (ddwbl/driphlyg) a gradd B (C yn yr arholiad) mewn TGAU Addysg Gorfforol yn ddymunol. Chwarae o leiaf un gamp i safon lefel clwb.

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Chwaraeon** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |

Bydd y cwrs yn rhoi ciplowg gwych i chi ar y diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol gyda chyfle i gael cymwysterau hyfforddi chwaraeon ychwanegol. **Gofynion mynediad:** Pum gradd D neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith a Mathemateg.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Chwaraeon** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Tycoch neu Gorseinon** |

Ar y cwrs dwy flynedd hwn byddwch yn canolbwyntio ar astudio'r corff dynol mewn chwaraeon, sgiliau hyfforddi ac addysgu ffitrwydd. Mae pwyslais ar wella a datblygu chwaraeon o fewn cymdeithas hefyd. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith a Mathemateg neu Chwaraeon/Gwasanaethau Cyhoeddus (Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Chwaraeon - Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed (Pro:Direct)** | **Lefel 3** Diploma | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |

Mae'r cwrs hwn yn berffaith i'r rhai sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau a'u perfformiad pêl-droed eu hunain ochr yn ochr ag astudio hyfforddi. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith a Mathemateg. Neu Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus (Lefel 2) gyda phroffil teilyngdod. Bydd gofyn i chi ddangos eich sgiliau pêl-droed a'ch dealltwriaeth ohonynt mewn treialon cyn y cwrs.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Rhagoriaeth a Pherfformiad Chwaraeon – Rygbi** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Y cwrs perffaith i'r rhai a hoffai ddatblygu eu sgiliau a'u perfformiad Rygbi'r Undeb a Rygbi'r Cynghrair, ochr yn ochr ag astudio hyfforddi. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith (mae gradd C mewn Mathemateg yn ddymunol hefyd) neu Lefel 2 mewn Chwaraeon neu Baratoi ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus gyda phroffil Teilyngdod. Bydd rhaid dangos sgiliau a dealltwriaeth o rygbi mewn gwersyll hyfforddi cyn y cwrs.

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff** | **Lefel 3** Diploma Estynedig | **Dwy flynedd** | **Gorseinon** |

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol i'r rhai sydd â diddorddeb cryf mewn gwyddor chwaraeon a diddordeb mewn datblygu gallu athletwyr trwy ddadansoddi ac astudiaethau ymchwil. **Gofynion mynediad:** Saith gradd C neu uwch ar lefel TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith, Mathemateg a Gwyddoniaeth Ddwbl. Byddwn yn ystyried gradd rhagoriaeth mewn pynciau cyfwerth.

## Sicrhau eich dyfodol

Mae gennym y cyfleoedd dilyniant canlynol yn y Coleg:

- **Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon**
- **Therapi Tylino Chwaraeon - Tystysgrif Lefel 4**

Fel arall, gallech symud ymlaen i'r brifysgol neu gael cyflogaeth yn y diwydiant.



# Teithio a Thwristiaeth

Mae cwrs teithio a thwristiaeth yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol ac yn eich helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rheoli busnes, gan ehangu eich cyfleoedd gyrfa.

Gweler disgrifiadau llawn y cwrs a gwneud cais ar-lein

## Llwybrau gyrfa

- Rheoli atyniadau
- Criw cwmni hedfan/llong mordeithio
- Staff maes awyr
- Tywysydd teithio
- Asiant teithio
- Rheoli digwyddiadau
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Rheoli gwesty
- Blogiwr teithio




Gwirfoddolodd y myfyrwyr Megan Gear a Faith Lloyd yn Nuathlon y Mwmbwls ym mis Mawrth. Roedden nhw wedi mwynhau'r profiad o ddysgu am ochr weithredol rhedeg digwyddiad a chyfarch athletwyr ar ddiwedd y ras!

## Galwedigaethol

| Cwrs | Cymhwyster | Hyd y cwrs | Campws |
|---|---|---|---|
| **Teithio a Thwristiaeth** | **Lefel 2** Diploma | **Un flwyddyn** | **Tycoch** |
| Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau, y rhinweddau a'r wybodaeth berthnasol sydd eu hangen arnoch ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. **Gofynion mynediad:** Dwy radd D neu'r cyfwerth ar lefel TGAU. | | | |
| **Twristiaeth Uwch** | **Lefel 3** Diploma | **Dwy flynedd** | **Tycoch** |
| Bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth neu addysg uwch gan gynnwys ymweliadau addysgol a chwrdd ag arbenigwyr diwydiant. **Gofynion mynediad:** Pum gradd C neu uwch mewn pynciau TGAU gan gynnwys Saesneg Iaith, neu Ddiploma Lefel 2 mewn pwnc cysylltiedig (gyda phroffil teilyngdod). | | | |